
## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Canllawiau Coed a Choetiroedd
# Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

### Asesiad sensitifrwydd tirwedd i greu coetiroedd

**Canllawiau Cynllunio Atodol**
Dyddiad yr Ymgynghoriad:  26ain Hydref 2022
Dyddiad Mabwysiadu:  20fed Medi 2023



# Cynnwys

**Chapter 1**
**Cyflwyniad** **1**

Trosolwg 2

**Chapter 2**
**Methodoleg a chwmpas** **4**

Cyd-destun polisi 4
Trefniadau Cyllido a Chyflawni Coetiroedd 5
Cwmpas y Canllaw 6
Mathau a graddfeydd plannu coetiroedd a ystyriwyd 7
Gwerthuso sensitifrwydd tirwedd 10
Meini prawf asesu 11
Cyflwyno'r canlyniadau 12

**Chapter 3**
**Cymeriad tirwedd presennol a chanllawiau ar gyfer creu coetiroedd** **16**

Arwynebedd coetir ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro 16
Manteision plannu coed a choetiroedd 18
Canllawiau ar gyfer plannu coed a choetiroedd 19

**Chapter 4**
**Canlyniadau cyffredinol** **21**

**Chapter 5**
**Cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd** **32**

**Appendix A**
**Proffiliau asesu** **A-169**

**Appendix B**
**Ffynonellau data/gwybodaeth** **B-1**

**Appendix C**
**Rhestr termau a byrfoddau** **C-1**

# Chapter 1
# Cyflwyniad

### Mae'r bennod hon yn darparu cyd-destun a throsolwg o'r astudiaeth

## Cyd-destun

**1.1** Mae plannu coed a choetiroedd yn chwarae rôl allweddol yn lliniaru colledion bioamrywiaeth ac effaith hinsawdd sy'n newid.  Mae coetiroedd yn gallu cyfrannu at nifer o wasanaethau ecosystemau pwysig eraill gan gynnwys dylanwadu ar yr hinsawdd; rheoli ansawdd dŵr; rheoli ansawdd ac erydiad pridd; peillio; rheoli plâu; amrywiaeth genetig; ymdeimlad o le/ysbrydoliaeth; ymdeimlad o hanes; llonyddwch; a hamdden. O ganlyniad, mae ehangu coetiroedd yn flaenoriaeth i Lywodraethau'r DU a Chymru ac mae mesurau newydd i gael mwy o blannu coed yn rhan ganolog o ymdrechion y llywodraethau i gyrraedd sero net o ran allyriadau erbyn 2050.

**1.2** Mewn datganiad ysgrifenedig ar Goed a Phren ym mis Gorffennaf 2021[1], gosododd Llywodraeth Cymru darged o gael cynnydd o 43,000 hectar o goetiroedd erbyn 2030, a 180,000 hectar erbyn 2050, er mwyn helpu Cymru i gyflawni ei thargedau ar leihau allyriadau carbon fel rhan o'r 'llwybr cytbwys' a ddisgrifiwyd gan Gomisiwn Newid Hinsawdd y DU. Mae hynny'n cyfateb i 5,000 hectar y flwyddyn. Yn 2020, dim ond 290 hectar o goetir a blannwyd yng Nghymru.

**1.3** Er mwyn cyflawni'r targedau hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £17m tuag at blannu coed dros y ddwy flynedd nesaf drwy gynllun Glastir - Creu Coetir ac mae wedi ymrwymo i ddarparu cyllid arwyddocaol yn y dyfodol.  Bydd manylion pellach yn cael eu hamlinellu mewn *Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru* newydd yn 2022 (gan ddiweddaru fersiwn blaenorol 2018).

**1.4** Gall ardal goed a choetir newydd ddod â llu o fanteision i fyd natur ac i gymdeithas ac mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn cefnogi plannu coed ac adfywio coetiroedd. Fodd bynnag, gallai creu coetiroedd gael effaith arwyddocaol ar rinweddau cydnabyddedig y dirwedd werthfawr hon, yr amrywiaeth o dirweddau a'r amgylchedd ecolegol a hanesyddol cyfoethog. Dylai plannu coed a choetiroedd o'r newydd fod yn ystyriol o rinweddau

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Coed a Phren (13 Gorffennaf 2021)

arbennig a nodweddion neilltuol y dirwedd sy'n eu derbyn – gan roi sylw i gael *'y goeden iawn yn y man iawn'*. Un rheswm pwysig dros hynny ydy cydnabyddiaeth bod cynefinoedd naturiol eraill a allai fod yn nodweddion yn y dirwedd lawn cyn bwysiced (neu mewn rhai achosion, yn bwysicach) ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys dylanwadu ar yr hinsawdd. Mae'r Canllaw felly yn anelu at gyfeirio coetiroedd i'r lleoliadau mwyaf priodol o safbwynt sensitifrwydd tirwedd, tra'n cefnogi cyfleoedd ar gyfer rheoli cadarnhaol ar gynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd. Rhagwelir y gallai cyngor penodol pellach ddod ar gael ynglŷn â sensitifrwydd bioamrywiaeth a threftadaeth yn y Parc Cenedlaethol.

**Perthnasedd i gymunedau lleol**

Mae'r Canllaw hwn yn darparu cyngor ynglŷn â'r mathau o dirweddau ble gallai sensitifrwydd ganiatáu plannu coed neu goetiroedd newydd, gan helpu i lywio'r goeden iawn i'r man iawn.

Rhoddir cyngor ar gyfer Ardaloedd Cymeriad Tirwedd penodol yn y Parc Cenedlaethol, ac ar gyfer mathau o dirweddau wedi'u grwpio.

Bydd y Canllaw yn berthnasol i gymunedau sy'n bwriadu plannu neu adfer coed neu goetir, neu sy'n awyddus i wneud sylw, neu ddylanwadu mewn ffordd arall ar oblygiadau tirwedd cynigion plannu.

## Trosolwg

**1.5** Nod y Canllaw yw:

- cynorthwyo'r rhai sy'n bwriadu plannu coed neu goetiroedd o fewn PCAP; a
- llywio ymateb Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gynigion ar gyfer plannu yr ymgynghorir â hwy yn eu cylch.

**1.6** Mae'r Canllaw yn darparu sylfaen tystiolaeth i helpu gydag ymateb i'r argyfwng amgylcheddol a hinsawdd yn unol â'r hyn a amlinellir yng nghynllun deng-mlynedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd (2020-2030) drwy ddarparu cyngor ynglŷn â'r mathau o dirweddau ble gallai'r sensitifrwydd ganiatáu plannu coed neu goetiroedd newydd, tra'n sicrhau bod ystyriaethau 'y goeden iawn yn y man iawn' yn cael sylw. Cynhwysir cyfleoedd strategol a chanllawiau ar gyfer plannu coetiroedd hefyd.

**1.7** Gellir ystyried y Canllaw yn estyniad i'r canllawiau rheoli presennol a geir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd [2] a Chanllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Morwedd [3] Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dosbarthiad yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) sy'n ffurfio'r fframwaith gofodol ar gyfer y Canllaw, fel y dengys **Ffigwr 1.1.**

**1.8** Gellir defnyddio'r Canllaw hwn hefyd i gynllunio gwaith gwella tirwedd sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu. Mae hynny'n cynnwys gwaith gwella tirwedd sy'n cael ei gyflawni yn unol â pholisïau SOC 06 A SOC 07 yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru: 2019, sy'n cyfeirio at wella tirweddau dynodedig a morweddau.

**1.9** Caiff dull y prosiect hwn ei ddisgrifio ym **Mhennod 2**. Mae **Pennod 3** yn disgrifio cymeriad coetiroedd presennol y Parc Cenedlaethol gyda chanllawiau cyffredinol ar gyfer creu coetiroedd, ac mae **Pennod 4** yn adrodd ar ganlyniadau'r asesiad o sensitifrwydd tirweddau. Mae **Pennod 5** yn cynnwys canllawiau a darluniau o gyfleoedd ar gyfer plannu coed a chreu coetiroedd ar gyfer tirweddau nodweddiadol a welir yn y Parc Cenedlaethol.

**1.10** Cyflwynir proffiliau asesu a chanllawiau penodol ar gyfer pob ACT yn **Atodiad A**.

[2] Canllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

[3] Canllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Morwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Figure 1.1:** **Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

# Chapter 2
# Methodoleg a chwmpas

## Mae'r bennod hon yn disgrifio methodoleg a chwmpas y Canllaw

## Cyd-destun polisi

### Polisi Cynllunio Cymru

**2.1** Mae Polisi Cynllunio Cymru[4] (diweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2021) yn cydnabod pwysigrwydd coed ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fel APCAP baratoi cynlluniau i wella'r amgylchedd naturiol a lleol.

**2.2** Mae *Para 6.4.24* yn nodi bod 'coed, coetiroedd, coedlannau a pherthi o bwys mawr i fioamrywiaeth. Maent yn gynefinoedd cysylltu pwysig ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac maent yn gwneud cyfraniad ehangach gwerthfawr at gymeriad y dirwedd, naws am le, ansawdd aer, hamdden a chymedroli'r hinsawdd leol. Maent yn gwneud cyfraniad hollbwysig hefyd at fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy storio carbon, a gallant ddarparu cysgod a ffynhonnell gynaliadwy o ynni a deunyddiau adeiladu. Dylai rôl a lleoliad coed trefol, a'u gofynion dylunio, o ran darparu manteision iechyd a llesiant i gymunedau, nawr ac yn y dyfodol, gael eu hyrwyddo fel rhan o'r broses llunio cynlluniau a phenderfynu'.

**2.3** Mae *Para 6.2.25* yn nodi y 'dylai awdurdodau cynllunio warchod coed, perthi, grwpiau o goed/llwyni ac ardaloedd o goetir lle mae iddynt werth ecolegol, lle maent yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal leol arbennig, neu lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol sydd wedi'i glustnodi i'r seilwaith gwyrdd. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried pwysigrwydd coetiroedd brodorol a choed o werth, a dylent roi sylw i strategaethau coed awdurdodau lleol neu ganllawiau cynllunio atodol lle bo'n briodol'.

**2.4** Mae *Para 6.4.27* yn nodi y 'dylai'r gwaith o warchod a phlannu coed a pherthi gael ei gyflawni, lle bo'n briodol, drwy strategaethau a pholisïau penodol i'r ardal leol'.

**2.5** Mae Coetiroedd i Gymru (2018) yn cyflwyno'r achos dros ehangu coetiroedd a thros reoli coetiroedd yn dda. Mae hynny'n cynnwys y math o goetiroedd y mae eu hangen er

---

[4] https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

mwyn cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau Cymru a'r gorchudd canopi helaethach.

**2.6** Mae creu coetiroedd cynhenid newydd a choetiroedd cymysg newydd sy'n gallu cyflwyno manteision niferus, a defnyddio prosesau plannu a rhai naturiol i wneud hynny, yn her sydd yr un mor berthnasol i dirweddau dynodedig fel y Parc Cenedlaethol ag ydyw i weddill Cymru. *Cyhoeddwyd Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol* gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n amlinellu meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys *'cynyddu gorchudd y coetir heb aberthu nodweddion arbennig y tirweddau hyn'*.

**2.7 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, 2021)** Mae Polisi 9 - Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd yn anelu at sicrhau y caiff bioamrywiaeth, cadernid ecosystemau a darpariaeth seilwaith gwyrdd eu gwella.

**2.8 Polisi Adnoddau Naturiol (Llywodraeth Cymru, 2017) a Datganiad Ardal De Orllewin Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)** Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi bod "ein coed a'n coetiroedd yn hanfodol os ydym am roi ein blaenoriaethau cenedlaethol ar waith. Mae angen coetiroedd amrywiol, mawr a bach, ar Gymru, sy'n cynnwys rhywogaethau conwydd a llydanddail", y dylid "gwneud rhagor i integreiddio coetiroedd a dulliau eraill o ddefnyddio tir..." ac y bydd "angen creu coedlannau newydd a sefydlu coed i greu cysylltedd gwell rhwng y llecynnau o gynefin coetir a chynyddu maint y llecynnau..."

**2.9 Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Medi 2020)** Mae'r polisïau a amlinellir yng Nghynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol yn ystyriaeth bwysig, ac mae'r Canllaw yn ceisio sicrhau y caiff canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â'r polisïau hynny eu cyflawni gan sicrhau ar yr un pryd y caiff cymeriad y dirwedd ei gadw a'i wella. Mae hyn yn cynnwys:

- Polisi 8 Nodweddion Arbennig: bydd nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael eu gwarchod a'u gwella.

  Bydd y blaenoriaethau yn sicrhau bod:

c) patrwm ac amrywiaeth y dirwedd yn cael eu diogelu a lle bynnag y bo modd, yn cael eu gwella

- Polisi 14 Gwarchod a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

  'Ni chaniateir datblygiad lle byddai hyn yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a chymeriad tirwedd a morwedd arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gan gynnwys nodweddion unigryw lleol drwy:

  a) achosi ymyrraeth weledol; a/neu

  b) cyflwyno neu ddwysáu defnydd sy'n anghydnaws â'i leoliad; a/neu

  c) beidio â gweddu â neu wella cymeriad tirffurf, tirwedd a morwedd y Parc Cenedlaethol; a/neu

  d) colli neu fethu â chynnwys nodweddion traddodiadol pwysig.

**Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024**

**2.10** Mae'r polisïau a amlinellir yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024 yn ystyriaeth bwysig hefyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Polisi L1: gwarchod a gwella tirweddau a morweddau'r Parc Cenedlaethol.
- Polisi E1: diogelu a gwella ansawdd, maint a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa addas.
- Polisi H1: Cadw a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol penodol, Ardaloedd Cadwraeth, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig a'u lleoliadau.
- Effaith yn ystod cyfnod y Cynllun:

  d. Gwarchod ac adfer ffiniau caeau gyda phwyslais arbennig ar ardaloedd o dirweddau hanesyddol cofrestredig ac ar eu perthnasedd i gysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth.

- Polisi N1: Cyfrannu at economi carbon isel i Gymru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

**2.11** Ategir y polisïau yn y Cynllun Rheoli gan gyfres o effeithiau y bwriedir eu cael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadw ac adfer coetir lled-naturiol, coetir pori, coed yn y dirwedd a ffiniau caeau.
- Creu gwrychoedd a stribedi coetir newydd.
- lleihau effeithiau coetiroedd coniffer anfrodorol ar fioamrywiaeth.
- Cefnogi cadwraeth pridd, rheoli priddoedd mawn, gwarchod gwlyptiroedd, gwarchod ac ehangu cynefinoedd lled-naturiol, coed yn y dirwedd a diogelu'r tir amaeth gorau a mwyaf amlbwrpas rhag datblygiad.

## Trefniadau Cyllido a Chyflawni Coetiroedd

**2.12** Mae amrywiaeth o ddulliau ariannu a chyflawni ar gyfer plannu coed a choetiroedd ar gael, ac yn debygol o ddod ar gael yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gellir cael y

wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth sydd ar gael i greu coetiroedd newydd drwy Gyfoeth Naturiol Cymru [5]

## Cwmpas y Canllaw

**2.13** Mae'n wybyddus bod plannu coed a choetiroedd yn gallu dod â llu o fanteision i fyd natur ac i gymdeithas. Yn ychwanegol at hynny, mae rheoli ac adfywio coetiroedd presennol mewn modd priodol, cynaliadwy cyn bwysiced â sefydlu coetiroedd newydd, yn ogystal â bod yn ffordd ratach o arafu newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth.

**2.14** Fodd bynnag, er bod gorchudd coed newydd yn beth cadarnhaol gan fwyaf, byddai plannu coetiroedd newydd yn y lleoliadau 'anghywir' yn gallu esgor ar ganlyniadau negyddol anfwriadol i rinweddau tirwedd arbennig y Parc Cenedlaethol a'i dreftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog. Er enghraifft, mae plannu ungnwd sydd wedi'i gynllunio'n wael yn gallu newid amrywiaeth a rhinweddau arbennig y dirwedd, gan gynnwys tirweddau agored a golygfeydd eang o'r ucheldiroedd. Mae sefydlu coetiroedd ar ardaloedd o laswelltir, rhostir neu fawndir sy'n gyfoethog eu rhywogaethau yn gallu lleihau bioamrywiaeth neu hyd yn oed ryddhau mwy o garbon nag a fydd yn cael ei storio gan y coed a blennir. Mae coed yn gallu difrodi archaeoleg gladdedig, safleoedd hanesyddol a'u lleoliadau hefyd.

**2.15** Felly, yr hyn mae'r canllawiau a grëwyd yn yr astudiaeth hon yn anelu at ei gyflawni yn mabwysiadu agwedd holistaidd, gyda chynllunio da, sy'n datblygu ar fframwaith presennol y dirwedd (megis cryfhau rhwydweithiau gwrychoedd a chysylltiadau â choetiroedd presennol, yn ogystal â phlannu o'r newydd).

### Cadw cynefinoedd a rhywogaethau nad ydynt yn rhai coetir

**2.16** Yn ogystal â'i goetiroedd, mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys nifer o gynefinoedd pwysig nad ydynt yn goetiroedd y mae angen eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer ehangu a rheoli coetiroedd. Mae'n bwysig nad yw mesurau i ehangu arwynebedd coetir yn y Parc Cenedlaethol yn arwain at ddifrodi neu golli'r cynefinoedd pwysig hyn. Dylai dyluniad a lleoliad cynlluniau felly roi ystyriaeth i safleoedd o'r fath er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar rywogaethau a chynefinoedd a ddiogelir ac sy'n flaenoriaeth. Mae hi hefyd yn bwysig sicrhau bod asesiadau ar gynigion i greu coetiroedd mewn safleoedd penodol yn rhoi ystyriaeth briodol i gynefinoedd sy'n arwyddocaol, er nad oes ganddynt ddynodiad, megis y cynefinoedd pontio rhwng ardaloedd o gynefinoedd gwlyptir, glaswelltir a choetir.

### Mynd i'r afael â rhywogaethau estron

**2.17** Mae planhigion ac anifeiliaid o rywogaethau estron goresgynnol yn fygythiad arwyddocaol a chynyddol i fioamrywiaeth, ac nid yw'r Parc Cenedlaethol yn eithriad. Mae tuedd i gynefinoedd torlannol fod yn arbennig o agored i dderbyn planhigion estron, ac mae hadau a deunyddiau eraill yn gallu cael eu lledaenu yn gyflym ac yn eang gan waith y dŵr. Gan fod yr ardaloedd hyn yn aml yn cael llonydd cymharol, mae poblogaethau o rywogaethau estron, megis Jac y neidiwr, yn gallu ymsefydlu'n dda. Dylai ymdrechion i ganfod, rheoli a chael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol fod yn rhan o unrhyw gynllun creu coetir.

### Diogelu treftadaeth ddiwylliannol

**2.18** Mae coed a choetiroedd yn rhan annatod o'r amgylchedd hanesyddol – maent yn cyfrannu at leoliad nifer o asedau amrywiol, yn ychwanegu at gymeriad trefi a phentrefi hanesyddol, ac yn cadw patrymau gweithgaredd y gorffennol. Fodd bynnag, er bod coed a choetiroedd yn rhan bwysig o lawer o dirweddau hanesyddol y Parc Cenedlaethol, mae potensial y gallai coetiroedd newydd, boed y rheiny'n rhai a blennir neu a gaiff eu hadfywio'n naturiol, effeithio ar rannau sensitif o'r amgylchedd hanesyddol. Mae safleoedd archaeolegol, naill ai uwchben y ddaear neu oddi tani, yn aml yn agored i niwed gan wreiddiau coed. Mae tirweddau archaeolegol a rhyngweledd henebion yn gallu cael eu heffeithio gan goed a blennir mewn mannau amhriodol.

**2.19** Fodd bynnag, mae lleoli'n ofalus a choetiroedd wedi'u cynllunio'n dda yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at leoliad safleoedd, gan gadarnhau cymeriad y dirwedd ac adfer strwythur tirwedd sydd wedi dirywio.  Yn yr un modd, mae angen rheoli casgliad helaeth yr ardal o dirweddau sydd wedi'u dylunio er mwyn sicrhau cyfraniad yr asedau hynny tuag at y cymeriad lleol a'i hynodrwydd ac at ymdeimlad o ddyfnder amser yn y dirwedd. Mae llawer o'r coed yn y tirweddau hanesyddol hyn yn aeddfed neu'n oraeddfed ac mewn rhai achosion, maent yn dioddef yn sgil diffyg rheoli priodol. Gallai'r hinsawdd newidiol waethygu'r problemau hyn o ganlyniad i niwed mewn stormydd, straen ac afiechyd. Mae'n bwysig sicrhau bod cynigion ar gyfer creu coetiroedd mewn safleoedd penodol yn rhoi ystyriaeth briodol i dreftadaeth ddiwylliannol y safle.

**Nodyn pwysig:**

**Ni ddylid dehongli'r asesiad fel datganiad terfynol ynglŷn ag addasrwydd lleoliadau penodol ar gyfer plannu.**

**Rôl gynghorol yn unig all fod i'r Canllaw mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a phwyso a mesur manteision posib a'r effeithiau tebygol. Bydd angen**

[5] Cael help i blannu coed a choetiroedd

**asesiadau penodol i'r safle ar gyfer cynigion i greu coetiroedd bob amser er mwyn darparu'r wybodaeth honno a chyfrannu at wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth dda. Dylai cynigion ar gyfer creu coetiroedd a chynlluniau rheoli geisio cyfleoedd i ddiogelu, rheoli a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau nad ydynt yn rhai coetir ac i ddiogelu unrhyw safleoedd o bwysigrwydd archaeolegol a hanesyddol sy'n wybyddus.**

### Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS) (2017) a Thirwedd Arfordir Penfro

**2.20** Dylai'r casgliad o ganllawiau gan y Comisiwn Coedwigaeth, ac yn arbennig Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS) sy'n orfodol, sicrhau'r arfer gorau wrth gynllunio coetiroedd a rheoli coetiroedd presennol.

**2.21** Mae angen i'r holl gynigion ar gyfer coetiroedd newydd yn y Parc Cenedlaethol gael eu cynllunio i safonau uchel a dylent fod wedi'u seilio ar Ofynion Ymarfer Coedwigaeth Cyffredinol Rhif 17 yr UKFS: 'Dylai coedwigoedd a choetiroedd newydd gael eu lleoli a'u cynllunio er mwyn cynnal neu wella gwerth a chymeriad gweledol, diwylliannol ac ecolegol y dirwedd.'

**2.22** Mae'n ofynnol i bob cynllun plannu coetir sy'n fy na 2 hectar mewn Parciau Cenedlaethol gael eu sgrinio ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a rhaid paratoi cynllun creu coetir sy'n dilyn y canllawiau a amlinellir yn unol ag UKFS 2017.

**2.23** Mae Adran 6.4 yr UKFS (tudalennau 96 – 127)[6] yn ymwneud â choedwigoedd a thirwedd. Mae'n nodi pedwar ffactor cyd-destun tirwedd a saith Egwyddor Dylunio Coedwigoedd y dylid eu defnyddio wrth leoli a chynllunio gwaith plannu newydd. Er mai ar gyfer cynlluniau mawr yn unig y mae creu Cynllun Rheoli Coedwig yn orfodol, mae'r egwyddorion yn berthnasol i bob cynllun, a byddant yn helpu i sefydlu coetiroedd yn y mannau iawn.

### Fframwaith gofodol ar gyfer yr asesiad

**2.24** Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Gymeriad Tirwedd yn darparu disgrifiad manwl o dirweddau'r Parc Cenedlaethol a'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw. Mae'n gwneud hynny drwy nodi Ardaloedd Cymeriad Tirwedd. Lle bo hynny'n berthnasol, darperir canllawiau rheoli ynglŷn â sut y gellir gwella cymeriad y dirwedd drwy blannu a rheoli coed. Mae'r Canllaw hwn yn amlinellu manylion pellach ynglŷn ag ehangu coed a choetiroedd gan ddefnyddio 28 Ardal Cymeriad Tirwedd[7] y Parc Cenedlaethol fel fframwaith gofodol fel y dengys **Ffigwr 1.1** uchod. Ei nod yw dangos sut y gellir cynyddu arwynebedd coed mewn modd sy'n cydnabod amrywiaeth y tirweddau a geir yn y Parc Cenedlaethol, gan wella cymeriad y dirwedd a chadw ei hunaniaeth nodedig ar yr un pryd.

**2.25** Mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sensitifrwydd tirwedd y Parc Cenedlaethol i greu a rheoli coetiroedd. Er bod ystyriaeth i dreftadaeth naturiol a diwylliannol wedi'i chynnwys, dylai cynigion unigol ar gyfer creu coetiroedd roi ystyriaeth fanylach i sensitifrwydd potensial y ddwy agwedd. Mae'r ACTau 'trefol' (ACT 2: Dinbych-y-Pysgod, ACT 17: Tyddewi ac ACT 23: Trefdraeth) wedi'u heithrio oherwydd bod y cyfleoedd i blannu coetiroedd yn yr ardaloedd hyn yn fwy cyfyngedig; fodd bynnag, gellir defnyddio'r canllawiau cyffredinol ar gyfer plannu coed a choetiroedd yn y ddogfen hon i lywio cynlluniau i greu coetiroedd yn y lleoliadau hyn (gweler **Tabl 3.2**).

## Mathau a graddfeydd plannu coetiroedd a ystyriwyd

### Graddfa plannu coetiroedd

**2.26** Mae'r Canllaw yn rhoi barn ar addasrwydd plannu coetiroedd ar raddfeydd gwahanol ac o fathau gwahanol, yn seiliedig ar fandiau sy'n adlewyrchu coetiroedd sy'n nodweddion yn y dirwedd leol ar hyn o bryd a'r rhai sydd fwyaf tebygol o allu cael eu cynnwys yn nhirweddau'r Parc Cenedlaethol.

**2.27** Graddfa fwyaf cyffredin y coetiroedd a ystyriwyd ar gyfer y Canllaw hwn ydy plannu ar raddfa fach (llai na 30ha). Rhoddir ystyriaeth hefyd i goetiroedd ar raddfa fwy (dros 30ha); fodd bynnag, mae coetiroedd ar y raddfa hon yn anghyffredin yn y Parc Cenedlaethol ac wedi'u crynhoi i raddau helaeth yn yr ardaloedd o ucheldir ac ar hyd yr aberoedd mwyaf llydan.

### Mathau o goetiroedd a blennir

#### Coetiroedd llydanddail

**2.28** Mae'r mathau o goetiroedd a ystyriwyd ar gyfer y canllaw hwn yn cynnwys rhywogaethau llydanddail cynhenid yn bennaf (er y gallai rhai rhywogaethau estron neu gonifferaidd ffurfio rhan o goetiroedd mwy er mwyn rhoi cymysgedd sy'n fwy cydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd ac afiechydon coed). Y math mwyaf cyffredin o goetir yn y Parc Cenedlaethol ydy coetir derw yn yr iseldir, a'r coed amlycaf yno ydy'r derw digoes (fe'u gwelir fwyaf yn nyffrynnoedd afonydd Gwaun a Nyfer ac yn rhan uchaf Moryd Daugleddau). Yn y de, mae llecynnau o goetir ynn cymysg wedi goroesi, er bod ganddynt wendid cynyddol yn wyneb *Chalara fraxinea* (clefyd coed ynn).

**2.29** Yn hanesyddol, ceid perllannau ar hyd a lled Sir Benfro ac roeddent yn ffynhonnell werthfawr o fwyd lleol ar un adeg.

[6] Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS) 2017

[7] Dogfen Gynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd

Er bod rhai perllannau traddodiadol yn parhau, mae llawer wedi'u colli neu fynd â'u pen iddynt. Mae coetir pori yn aml yn gysylltiedig ag ystadau hanesyddol, ond maent yn gymharol brin. Mae cadw perllannau a choetir pori presennol a chreu rhai newydd yn cynnig cyfle i bori anifeiliaid mewn tirwedd mwy coediog ac mae potensial yma i gymhathu plannu coed o fewn tirweddau amaethyddol y Parc Cenedlaethol, gan gyfrannu at y rhwydwaith coetiroedd ehangach.

**2.30** Dylai'r dewis o rywogaethau ar gyfer coetiroedd newydd yn y Parc Cenedlaethol gael ei benderfynu mewn ymgynghoriad â thîm y Parc Cenedlaethol. Rhoddir cyngor ynglŷn â rhywogaethau addas yn y Canllawiau ar Ddethol Coed a Llwyni yn Sir Benfro[8]. Wrth ddethol rhywogaethau ar gyfer lleoliadau penodol, dylid ystyried canllawiau lleol cyfredol hefyd o safbwynt gwytnwch a'r gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd.

**2.31** Mae gan goed llydanddail rinweddau nodedig o ran lliw a gwead tymhorol, yn ogystal ag arlliwiau amrywiol. Mae dwysedd y plannu mewn coetiroedd llydanddail yn tueddu i fod yn llai dwys nag mewn coetiroedd conifferaidd, ac mae hynny, ynghyd â newidiadau tymhorol yn debygol o olygu eu bod yn cael llai o effaith ar gymeriad y dirwedd na choetiroedd conifferaidd neu gymysg (llydanddail a chonifferaidd).

**Planhigfeydd cymysg a chonifferaidd**

**2.32** Cafodd planhigfeydd eang o goed conifferaidd estron eu sefydlu yn y Parc Cenedlaethol yng nghanol yr 20fed ganrif. Cafodd y rhain eu gosod mewn siapiau geometrig a oedd yn dilyn ffiniau perchenogaeth, a phrin oedd yr amrywiaeth o ran rhywogaethau ac oed. Ychydig o ystyriaeth a roddwyd i werth ecolegol y cynefinoedd a fodolai neu i'r effaith ar gymeriad y dirwedd ar y pryd. Y planhigfeydd hyn, neu ardaloedd sydd wedi cyrraedd eu haeddfedrwydd ac wedi eu llwyrdorri, ydy'r nodwedd amlycaf hyd heddiw ar dirweddau ucheldir Bryniau Preseli (ACT 27) a Bryniau Carningli (ACT22). Mae ychydig llai na thraean o'r coetiroedd yn y morydau llydan yn Naugleddau (ACT28) yn goetiroedd cymysg neu gonifferaidd, gyda'r rhan fwyaf o'r planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol (PCHau). Ceir rhai planhigfeydd coetir llai hefyd ar hyd dyffrynnoedd nentydd yn Arfordir Anheddog Saundersfoot (ACT 1) ac o fewn Cwm Gwaun/Afon Nyfer (ACT26).

**2.33** Gallai unrhyw blanhigfeydd masnachol newydd ar raddfa fawr, neu rai a blennir yn lle'r rhai presennol, yn y Parc Cenedlaethol ddarparu rhai elfennau o werth ar gyfer hamdden, rheoli risgiau llifogydd a dal carbon (serch hynny, yn yr hirdymor, 100 mlynedd a mwy, mae coed derw yn storio cymaint â choed conifferaidd). Fodd bynnag, mae planhigfeydd tyfu'n gyflym yn debygol o arwain at newid arwyddocaol (negyddol0 i gymeriad yr holl dirweddau yn y Parc Cenedlaethol, nid yw'r un manteision bioamrywiaeth â choetiroedd llydanddail cynhenid yn perthyn iddynt (gan mai coed estron a ddefnyddir yn anad dim), maent yn cael effaith eithriadol o negyddol ar ecoleg coetiroedd hynafol ac yn gallu cyfrannu at asideiddio cyrsiau dŵr.

**2.34** Wrth i'r planhigfeydd sy'n bodoli yn y Parc Cenedlaethol ddod i'w haeddfedrwydd, mae cyfle i ailstrwythuro amrywiaeth gweledol a rhywogaethol y coedwigoedd hyn yn raddol mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar y dirwedd ac yn cynnig mwy o fioamrywiaeth o safbwynt bywyd gwyllt. Ymhlith yr opsiynau, mae cael gwared arnynt a'u disodli â chynefinoedd rhostir neu blannu coetiroedd llydanddail.

**2.35** Yr hyn a ddylai fod yn nod tymor byr ydy addasu strwythur cyffredinol planhigfeydd conifferaidd presennol i fod a mwy o gynnwys llydanddail (coetiroedd cymysg), gan eu disodli yn p pen draw â choetiroedd llydanddail cynhenid gan fwyaf. Dylid rhoi blaenoriaeth i drawsnewid holl safleoedd Planhigfeydd Coetiroedd Hynafol (PCHau) i goetiroedd cynhenid, gan eu bod yn aml yn cynnwys gweddillion coetiroedd hynafol ac felly'n cynhyrchu coetir hynafol mwy amrywiol pan gânt eu hadfer.

**2.36** Yn llecynnau mawr yr ucheldir ar Fynydd Preseli a Mynydd Carningli, y dewis arall ydy llwyrdorri planhigfeydd sy'n bodoli dros y tymor byr i'r tymor canol a dychwelyd at glytwaith o goetiroedd llydanddail a chynefinoedd rhostir neu laswelltir agored blaenorol y bryniau gyda'u lliwiau ysgafn cynnil a'u cymeriad agored.

**2.37** Oherwydd y rhesymau hynny, mae ystyriaeth i sensitifrwydd y dirwedd i goetiroedd cymysg yn y Canllaw hwn yn gyfyngedig i dirweddau ucheldir y Parc Cenedlaethol (ACT 22 ac ACT 27), y morydau llydan yn Naugleddau (ACT 28) a'r dyffrynnoedd nentydd o amgylch Saundersfoot (ACT 1). Ystyrir bod gan yr holl dirweddau eraill yn y Parc Cenedlaethol sensitifrwydd ar raddfa uchel i goetiroedd cymysg ar unrhyw raddfa.

**2.38** Os daw cynigion ar gyfer planhigfeydd masnachol newydd, neu rai i gymryd lle'r rhai presennol, i law yn y Parc Cenedlaethol, bydd priodoleddau allweddol cynlluniau unigol yn cael eu hasesu fesul safle drwy'r broses ceisiadau cynllunio. Dylai unrhyw gynlluniau gydymffurfio â Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig. Yn benodol;

- dylai coetiroedd newydd gael eu lleoli a'u cynllunio er mwyn cynnal neu wella gwerth a chymeriad gweledol, diwylliannol ac ecolegol y dirwedd;
- dylid sefydlu neu gynnal strwythur amrywiol o ran cynefinoedd, rhywogaethau ac oedran coed yn y coetir, gydag elfennau llydanddail a thir agored yn orfodol er mwyn sicrhau'r fantais orau posib o ran bioamrywiaeth.

---

[8] Partneriaeth natur Sir Benfro, Canllawiau ar Ddethol Coed a Llwyni yn Sir Benfro (2020)

**2.39** Caiff mathau a meintiau coetiroedd a asesir yn y canllaw hwn eu dangos yn **Nhabl 2.1** isod.

**Table 2.1: Math o goetiroedd a disgrifiadau**

| Mathau o goetiroedd | Arwynebedd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Coetiroedd ar raddfa fach | **≤5ha** | Coetiroedd bach o goed cynhenid yn bennaf, sy'n llai na neu hyd at 5ha o ran arwynebedd, gan gynnwys coedlannau, coetiroedd ffermydd, lleiniau cysgodi neu goetiroedd torlannol. Caiff perllannau traddodiadol a choed pori eu hystyried yn rhan o'r math hwn o goetir hefyd. |
| | | Coetiroedd cymysg ar raddfa fach, llai na neu hyd at 5ha o ran arwynebedd. Coetiroedd yn cynnwys rhywogaethau llydanddail a rhai conifferaidd (lle mae cyfran y coed llydanddail yn fwy na 50%). |
| Graddfa fach-ganolig | **>5- 15ha** | Coetiroedd ar raddfa fach-ganolig o goed cynhenid yn bennaf, sydd rhwng 5 a15ha o ran arwynebedd, gan gynnwys coedlannau, coedydd lleiniau cysgodi neu goetiroedd torlannol. |
| | | Coetiroedd cymysg ar raddfa fach-ganolig (llydanddail yn bennaf), rhwng 5 a 15ha o ran arwynebedd. Coetiroedd yn cynnwys rhywogaethau llydanddail a rhai conifferaidd (lle mae cyfran y coed llydanddail yn fwy na 50%). |
| Coetiroedd ar raddfa ganolig | **>15-30ha** | Coetiroedd ar raddfa ganolig o goed cynhenid yn bennaf, sydd rhwng 15 a 30ha o ran arwynebedd. |
| | | Coetiroedd cymysg ar raddfa ganolig (llydanddail yn bennaf), rhwng 15 a 30ha o ran arwynebedd. Coetiroedd yn cynnwys rhywogaethau llydanddail a rhai conifferaidd (lle mae cyfran y coed llydanddail yn fwy na 50%). |
| Coetiroedd ar raddfa fawr | **>30ha** | Coetiroedd ar raddfa fawr o goed cynhenid yn bennaf, sy'n fwy na 30ha o ran arwynebedd. |
| | | Coetiroedd cymysg ar raddfa fawr (llydanddail yn bennaf) dros 30ha o ran arwynebedd. Coetiroedd yn cynnwys rhywogaethau llydanddail a rhai conifferaidd (lle mae cyfran y coed llydanddail yn fwy na 50%). |

## Gwerthuso sensitifrwydd tirwedd

**2.40** Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sensitifrwydd tirwedd, gan ddefnyddio methodoleg sefydledig sy'n gyson â chanllawiau cenedlaethol.

**2.41** Mae'r dull a ddefnyddiwyd i werthuso sensitifrwydd tirwedd i blannu coetiroedd wedi'i addasu o'r dull a ddefnyddiwyd gan LUC ar gyfer astudiaethau tebyg ac mae'n defnyddio cyngor a geir yn An Approach to Landscape Sensitivity Assessment (Natural England, 2019) yn ogystal â chanllawiau drafft a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru: 'Datganiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau (2018)[9]. Er eu bod wedi'u cymhwyso'n benodol at ddatblygiadau ynni gwynt a phaneli solar ffotofoltaig ar y tir, mae modd addasu'r canllawiau Cymreig diweddar newydd hyn ar gyfer ffurfiau eraill ar newid tirweddol. Mae Asesu Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau wedi dod yn ffordd bwysig o ddefnyddio dealltwriaeth o gymeriad tirweddau i lywio'r gwaith o reoli newid tirweddol. Mae canllawiau ynglŷn ag asesu sensitifrwydd tirwedd, mewn perthynas â chynllunio gofodol a newid defnydd tir wedi'u cyhoeddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.[10]

**2.42** Mae datblygiad y dull seiliedig ar asesu yn rhoi ystyriaeth hefyd i'r canllawiau yn Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (2017) – Adran 6.4 (Coedwigoedd a Thirwedd) a Thechnegau Dylunio ar gyfer Cynllunio Rheolaeth Coedwigoedd.

**2.43** Mae'r dull a ddefnyddir i werthuso sensitifrwydd tirwedd i blannu coed wedi'i addasu o'r dull a ddefnyddiwyd gan Land Use Consultants (LUC) ar gyfer nifer o asesiadau sensitifrwydd tirwedd.

[9] Cyfoeth Naturiol Cymru 2018 Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau mewn perthynas â datblygiadau ynni gwynt a phaneli solar ffotofoltaig ar y tir: Dull seiliedig ar asesu ar gyfer Cymru

[10] GN 017 Canllawiau Asesu Sensitifrwydd Tirwedd i Gymru

**2.44** Er bod dull LUC yn dibynnu ar gyngor a gynhwysir yng nghanllau Natural England 'An Approach to Landscape Sensitivity Assessment' (2019), yn ogystal â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, mae LUC wedi canfod yn y gorffennol bod gorgyffwrdd rhwng dangosyddion 'agored i niwed' a 'gwerth' ac felly defnyddir set o feini prawf sensitirwydd sy'n ystyried agweddau o'r ddau yma. Ystyrir bod hyn yn ddull priodol ar gyfer y Canllaw hwn, sydd â diben strategol, o gymharu ag asesiadau sy'n perthyn yn fwy penodol i safleoedd, megis Asesiadau Tirwedd ac Effeithiau Gweledol.

**2.45** Mae dangosyddion LUC wedi'u teilwra i'r newid tirwedd neu'r datblygiad sydd dan ystyriaeth (coed a choetiroedd yn yr achos hwn) a'r dirwedd sydd dan ystyriaeth (tirwedd â dynodiad cenedlaethol yn yr achos hwn).

**2.46** Mae ardal yr astudiaeth yn gyfyngedig i dirwedd y Parc Cenedlaethol - tirwedd y mae'r cyfan o werth uchel i bob pwrpas. Mae hyn yn golygu bod rhannu meini prawf yn ddangosyddion 'agored i niwed' a 'gwerth' yn fwy heriol, oherwydd y byddai awgrymu bod rhannau o dirwedd y parc Cenedlaethol o 'fwy o werth' nag eraill, yn gyfrif dwbl i bob pwrpas. Yn hytrach na hynny, mae'r meini prawf sensitifrwydd a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yn cynnwys dangosyddion 'gwerth', gan adlewyrchu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol y gallai plannu coed a choetiroedd gael effaith arnynt. Er enghraifft, mae'r meini prawf ar gyfer dangosydd 'Nodweddion canfyddiadol a golygfaol' yn cynnwys nifer o'r nodweddion arbennig a restrir yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024 sy'n gwneud tirwedd y Parc Cenedlaethol yn unigryw, megis 'ysblander arfordirol', 'amrywiaeth y dirwedd', 'llonyddwch a natur anghysbell a gwyllt'.[11]

**2.47** Mae'r dangosydd ar gyfer 'Cymeriad Hanesyddol Tirwedd' yn cynnwys ystyriaeth i'r amgylchedd hanesyddol cyfoethog, ac mae dangosydd 'Patrwm caeau ac arwynebedd y tir' yn cynnwys ystyriaeth i 'gyfoeth o gynefinoedd a rhywogaethau' yn sgil eu perthynas â chymeriad tirwedd.

## Meini prawf asesu

**2.48** Mae'r dewis o ddangosyddion sensitifrwydd tirwedd ('meini prawf') ar gyfer yr astudiaeth hon wedi'i ddylanwadu gan nodweddion tirweddol y gallai plannu coetiroedd effeithio arnynt. Mae'n ystyried agweddau 'tirweddol', 'gweledol', a 'chanfyddiadol' sensitifrwydd, gan gynnwys:

- Tirffurfiau a graddfa;
- Patrwm caeau ac arwynebedd y tir;
- Patrwm ac amrywiaeth coetiroedd presennol;
- Cymeriad hanesyddol y dirwedd;
- Cymeriad gweledol (gan gynnwys nenlinau); a
- Rhinweddau canfyddiadol a golygfaol.

**2.49** Mae **Tablau 2.3** ar ddiwedd y bennod hon yn rhoi canllawiau ac enghreifftiau o nodweddion/priodoleddau sydd â sensitifrwydd ar raddfa isel ac ar raddfa uchel i blannu coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol. Cafodd y meini prawf hyn eu defnyddio i bennu'r elfennau sensitif allweddol i blannu coetiroedd ar gyfer pob ACT ac i lywio barn ar lefelau cyffredinol y sensitifrwydd.

**2.50** Roedd cam cyntaf yr asesiad yn golygu cynnal astudiaeth desg drylwyr, gan dynnu ar ffynonellau gwybodaeth ofodol a disgrifiadol ynglŷn â'r dirwedd (gweler **Atodiad B**). Ategwyd hynny â gwaith maes a gynhaliwyd gan dîm o weithwyr tirwedd proffesiynol i wirio'r canfyddiadau.

**2.51** Dylid nodi'r cafeatau canlynol:

- Gallai sensitifrwydd tirwedd un rhan o uned asesu fod yn wahanol i ran arall. Nid yw'r fath fanylder yn cael ei gofnodi heb raddfa asesu fwy manwl.

- Mae lefelau sensitifrwydd yn gymharol ag ardaloedd eraill yn yr asesiad. Gallai'r lefelau fod wedi'u graddnodi'n wahanol mewn asesiadau eraill, sy'n golygu na fyddai cymhariaeth uniongyrchol yn gywir o anghenraid.

- Gall fod angen eu hasesiad manylach eu hunain ar gynigion datblygu penodol ar safleoedd penodol, fel arfer byddai hynny'n golygu asesiad o'r dirwedd ac effeithiau gweledol.

### Rhoi barn gyffredinol ynglŷn â sensitifrwydd tirweddau

**2.52** Nodwyd priodoleddau neu nodweddion allweddol y dirwedd y gallai creu coetiroedd effeithio arnynt ac fe'u rhestrir dan 'elfennau sensitif allweddol' ar gyfer pob ACT. Rhoddir trosolwg o sensitifrwydd pob ACT, a thynnir sylw at unrhyw ardal, priodwedd neu leoliadau yn yr ACT y bernir eu bod naill ai'n fwy neu'n llai sensitif (oherwydd amrywiadau lleol yn sensitifrwydd y dirwedd).

**2.53** Caiff hynny ei drosi i roi sgoriau cyffredinol ar gyfer 'sensitifrwydd tirwedd' (gweler **Tabl 2.2**) ar gyfer y gwahanol fandiau o blannu coed a choetiroedd. Dangosir y canlyniadau ar gyfer pob ACT yn y proffiliau asesu unigol.

Table 2.2: **Graddfa pum-pwynt 'sensitifrwydd tirwedd'**

| Sgôr Sensitifrwydd Cyffredinol | Diffiniad |
|---|---|

[11] Mae rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'u rhestru yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol 2020-2024. Maent yn: hygyrchedd; ysblander arfordirol; treftadaeth ddiwylliannol; cymeriad nodedig yr aneddiadau; daeareg amrywiol; amrywiaeth y dirwedd; ynysoedd; llonyddwch a natur anghysbell a gwyllt; amgylchedd hanesyddol cyfoethog; cyfoeth o gynefinoedd a bioamrywiaeth; lle i enaid gael llonydd; yr amrywiaeth o brofiadau a chyfuniad o nodweddion unigol

| | |
|---|---|
| Isel | Mae nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn gydnerth ac yn gallu gwrthsefyll newid o gyflwyno coetiroedd. Mae'n debygol bod gan y dirwedd lefel uchel o botensial i dderbyn coetiroedd newydd heb newid arwyddocaol o ran cymeriad. Gallai coetiroedd berthyn yn dda i'r dirwedd, er bod angen gofal o hyd wrth leoli a dylunio cynlluniau coetir. |
| Isel-Cymedrol | Mae ychydig o nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn sensitif i newid o gyflwyno coetiroedd. Mae gan y dirwedd rywfaint o botensial i dderbyn coetiroedd newydd gyda newid cyfyngedig o ran cymeriad. Mae angen gofal o hyd wrth leoli a dylunio cynlluniau coetir er mwyn osgoi cael effaith niweidiol ar gymeriad tirwedd. |
| Cymedrol | Mae rhai o nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn sensitif i newid. Er y gall fod gan y dirwedd rywfaint o botensial i dderbyn coetiroedd newydd mewn lleoliadau penodol, mae'n debygol o achosi rhywfaint o newid o ran cymeriad. Byddai angen gofal wrth leoli a dylunio. |
| Cymedrol-Uchel | Mae nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn sensitif i newid o greu coetiroedd. Gall fod lleoliadau cyfyngedig ble gellir derbyn coetiroedd newydd heb gael effaith arwyddocaol ar gymeriad tirwedd. Byddai angen gofal mawr wrth leoli a dylunio. |
| Uchel | Mae nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn hynod sensitif i newid. Mae creu coetiroedd yn debygol o arwain at newid arwyddocaol o ran cymeriad. |

**2.54** Mae'r pum lefel o 'sensitifrwydd tirwedd' a ddiffinnir yn gamau ar gontinwwm yn hytrach na chategorïau sy'n amlwg ar wahân i'w gilydd, ac mae angen elfen o farnu proffesiynol.

**2.55** Mae asesiad o sensitifrwydd tirwedd yn ganlyniad i ryngberthynas gymhleth rhwng newidynnau (neu 'feini prawf') sy'n aml wedi'u pwysoli i wahanol raddfeydd. Rhoddir barn broffesiynol ynglŷn â sensitifrwydd cyffredinol y dirwedd, gan ystyried yr holl feini prawf yng nghyd-destun eu pwysigrwydd i gymeriad y dirwedd ac ansawdd yr ACT unigol.

**2.56** Mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio ar effaith botensial plannu coed a choetiroedd ar gymeriad y dirwedd. Mae'n nodi hefyd ble gallai plannu coetiroedd roi cyfleoedd i ychwanegu gwerth at ddarpariaeth gwasanaethau ecosystemau eraill, megis y potensial i wella rheoli llifogydd ac ansawdd dŵr, gwerth plannu coetiroedd o ran bioamrywiaeth a rheoli erydiad pridd.

## Cyflwyno'r canlyniadau

**2.57** Caiff canllawiau ar y ffactorau sy'n cyfrannu at gynllunio priodol ar goetiroedd a phlannu coed yn y Parc Cenedlaethol eu hamlinellu ym **Mhennod 3** ac mae sensitifrwydd cyffredinol yr ACTau unigol a chanllawiau ar gyfleoedd i blannu coetiroedd wedi'u nodi ym **Mhennod 4**.

**2.58** Cyflwynir yr asesiadau sensitifrwydd tirwedd llawn ar gyfer pob un o'r ACTau mewn proffiliau asesu ar wahân (a gynhwysir yn **Atodiad A**). Mae'r rhain wedi'u trefnu fel a ganlyn:

- Mapiau cyd-destun yn dangos lleoliad yr ACT, gorchudd coetiroedd presennol a dynodiadau amgylchedd hanesyddol a naturiol.
- Disgrifiad cryno o arwynebedd presennol coed a choetiroedd yn yr ACT.
- Tabl yn dangos nodweddion dynodedig a phriodoleddau gwerthfawr yn yr ACT.
- Rhestr o elfennau sensitif allweddol o safbwynt plannu coetiroedd yn yr ACT.
- Trosolwg o sensitifrwydd cyffredinol tirwedd yr ACT o safbwynt plannu coed a choetiroedd newydd gan gyfeirio at nodweddion, priodoleddau neu leoliadau a allai fod yn fwy neu'n llai sensitif.
- Tabl yn nodi sgoriau'r asesiad sensitifrwydd tirwedd ar gyfer y senarios perthnasol (yn defnyddio'r raddfa pum-pwynt a ddangosir yn **Nhabl 2.2** ac yn dilyn y dull seiliedig ar feini prawf a amlinellir yn **Nhablau 2.3**).
- Cyfleoedd ar gyfer plannu coetiroedd yn yr ACT.
- Argymhellion a chanllawiau strategol ar gyfer derbyn plannu coed a choetiroedd yn y dirwedd yn y dyfodol.

**2.59** Mae darluniau o gyfleoedd ar gyfer plannu coed a chreu coetiroedd yn y dyfodol ar gyfer tirweddau nodweddiadol a welir yn y Parc Cenedlaethol wedi'u cynnwys ym **Mhennod 5**. Mae'r rheiny'n gysylltiedig â'r grwpiau ACT yn Nhabl 5.1 ac yn cynnwys tir amaeth arfordirol agored, tir amaeth arfordirol coediog, morydau a dyffrynnoedd afonydd, ucheldiroedd, ynysoedd a phentiroedd creigiog.

Table 2.3: **Disgrifiadau o feini prawf sensitifrwydd**

**Tirffurfiau (a graddfa tirffurfiau)**

Mewn ardaloedd mynyddig neu fryniog, tirffurfiau ydy'r dylanwad amlycaf ar sensitifrwydd y dirwedd fel arfer. Mae tirwedd sydd â thirffurfiau syml, megis tirweddau gwastad neu raddol donnog yn yr iseldir, neu lethrau is esmwyth, yn llai sensitif i gyflwyno coetiroedd mawr na thirwedd sydd â thirffurfiau cymhleth neu amlwg a nodweddion tirffurfiol nodedig (e.e. cefnennau, copaon bryniau a brigiadau creigiog, neu dirffurfiau arfordirol cywrain). Y rheswm am hynny ydy y gallai coetiroedd helaeth guddio nodweddion tirffurfiol nodedig. Fodd bynnag, mae modd cynllunio coetiroedd llai mewn modd sy'n golygu eu bod yn perthyn i'r dirffurf (e.e. coetir cynhenid yn ymestyn i fyny dyffrynnoedd nentydd cul mewn ucheldir).

Yn gyffredinol, dylai graddfa a siâp coetir adlewyrchu graddfa'r dirwedd. Mae tirwedd glòs ar raddfa fach, gyda nodweddion tirwedd ar raddfa fach, yn fwy sensitif ar y cyfan i gyflwyno plannu coetiroedd ar raddfa helaeth oherwydd y gallant edrych fel bloc mawr a bod yn gysgod dros y cyffiniau. Yn yr ardaloedd hynny, byddai cyfres o goetiroedd ar raddfa fach sy'n cysylltu â gorchudd coed presennol ac sydd o siapiau afreolaidd yn fwy addas. Yn gyffredinol, mae rhai o'r tirweddau sydd â'r raddfa fwyaf yn y Parc Cenedlaethol, yn enwedig y rhai sydd â choetiroedd a choed ar hyn o bryd, megis llethrau isaf Bryniau Preseli, yn fwy parod i dderbyn coetiroedd ar raddfa fwy gan y byddent yn cael llai o effaith ar gymeriad eu tirwedd. Fodd bynnag, mae gan y rhostiroedd uchel agored ar gopaon bryniau Preseli ac ardaloedd eraill yn y Parc Cenedlaethol a nodweddir gan eu natur agored, eu hecoleg a'u harchaeoleg cyfoethog, sensitifrwydd ar raddfa uchel i blannu coetiroedd, oherwydd y byddai'n newid eu rhinweddau arbennig, gan gynnwys cymeriad agored helaeth y rhostiroedd.

| Isel | Isel-Cymedrol | Cymedrol | Cymedrol-Uchel | Uchel |
|---|---|---|---|---|
| Tirwedd â thirffurfiau syml, megis tirwedd iseldir gwastad helaeth, neu dirffurfiau ar raddfa fwy. | Tirwedd syml graddol donnog, sy'n debygol o fod yn dirffurf ar raddfa ganolig-fawr. | Tirwedd donnog, wedi'i thorri o bosib gan ddyffrynnoedd hefyd, sy'n debygol o fod yn dirffurf ar raddfa ganolig, gyda mannau cuddiedig mewn plygiadau yn y dirwedd yn ogystal â rhai llethrau gweladwy. | Tirwedd gyda nodweddion tirffurf nodedig, a/neu sy'n afreolaidd o ran golwg dopograffig (a allai fod ar raddfa fawr) neu dirffurf ar raddfa lai. | Tirwedd gyda thirffurf garw neu nodweddion tirffurf dramatig sy'n nodweddion amlwg yn y dirwedd o'u cwmpas,(a allai fod ar raddfa fawr) neu dirffurf ar raddfa fach neu glòs, gyda nodweddion ar raddfa fach. |

**Patrwm caeau ac arwynebedd y tir**

Mewn ardaloedd iseldir, ble mae'r tirffurfiau yn llai amlwg, patrymau'r caeau ydy'r dylanwad amlycaf ar sensitifrwydd y dirwedd fel arfer. Mae tirweddau sydd â phatrymau caeau bach, afreolaidd (sy'n aml o darddiad canoloesol) yn debygol o fod yn fwy sensitif i gyflwyno coetiroedd mawr newydd na thirweddau sydd â phatrymau caeau mawr, rheolaidd oherwydd y risg o wanhau neu guddio patrwm nodweddiadol y dirwedd. Y rheswm am hynny ydy bod coetiroedd helaeth yn gallu tynnu oddi ar batrymau caeau, a byddai hynny'n arbennig o amlwg petai plannu'n digwydd ar draws nifer o gaeau cyffiniol ble mae patrwm y caeau yn fach ac yn gywrain. Fodd bynnag, mae plannu coetiroedd ar raddfa fach yn gallu cryfhau ac estyn y patrwm caeau presennol ble gwelir mai patrwm y caeau ydy'r dylanwad amlycaf ar y dirwedd.

Mae tirweddau hynod naturiolaidd sydd â gorchudd tir lled-naturiol helaeth (e.e. glaswelltir, rhostir, ardaloedd dyfrol a gwlyptiroedd sydd â chyfoeth o rywogaethau, yn arbennig cynefinoedd a ddiogelir gan ddynodiadau statudol neu leol) ble mae coetiroedd yn annodweddiadol, yn debygol o fod yn fwy sensitif, gan y byddai creu coetiroedd ar raddfa fawr yn gallu arwain at golli amrywiaeth tirwedd. Fodd bynnag, dylid ystyried yr effeithiau cadarnhaol posib ar amrywiaeth cynefinoedd o greu coetiroedd ar raddfa fach, ac adfer terfynau caeau er mwyn cysylltu ardaloedd o goetir newydd neu bresennol. Mae tirweddau ble mae coetiroedd yn brin, os yw eu natur agored yn ganlyniad i rymoedd diweddar fel dwysáu amaethu neu ddatblygu, yn debygol o fod yn llai sensitif.

| Isel | Isel-Cymedrol | Cymedrol | Cymedrol-Uchel | Uchel |
|---|---|---|---|---|
| Tirwedd â chaeau rheolaidd ar raddfa fawr, o darddiad modern yn bennaf.<br>Tirwedd wedi'i dylanwadu gan ddatblygiadau / seilwaith modern ar raddfa fawr. | Tirwedd a ddiffinnir yn bennaf gan gaeau mawr, modern neu rai sydd wedi'i rhannu ymhellach ar gyfer defnydd nad yw'n draddodiadol, e.e. ar gyfer marchogaeth ceffylau.<br>Tirwedd wedi'i dylanwadu gan ddatblygiadau/seilwaith modern. | Tirwedd sydd â chymysgedd o gaeau modern ar raddfa fawr a rhai caeau llai, mwy hanesyddol.<br>Tirwedd wledig, gyda rhywfaint o ddatblygiadau/seilwaith modern o bosib. | Tirwedd lle mae patrymau caeau hynafol ar raddfa fach yn amlycach na dim, gydag ambell lecyn unigol o gaeau modern, a/neu tirwedd gyda rhai ardaloedd o orchudd tir lled-naturiol (heb fod yn goetir). | Tirwedd a nodweddir gan batrymau caeau hynafol ar raddfa fach a/neu tirwedd amrywiol lle mae gorchudd tir lled-naturiol (heb fod yn goetir) yn amlycach na dim. |

| Patrwm ac amrywiaeth coetiroedd presennol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bydd patrwm cyffredinol arwynebedd coetiroedd presennol a hanesyddol yn y dirwedd (gan gynnwys maint, siâp cyffredinol, lleoliad yn y dirwedd a math) yn pennu ei sensitifrwydd a bydd angen ystyried effeithiau creu a lleoli coetiroedd newydd ar y patrwm coetiroedd presennol.<br>Er enghraifft, bydd tirweddau sydd â phatrwm cryf/cymhleth o goetiroedd (e.e. Coetiroedd torlannol ar hyd dyffrynnoedd iseldir neu'n ymestyn i fyny ochrau bryniau mewn dyffrynnoedd nentydd serth) yn sensitif i blannu coetiroedd o'r newydd oherwydd y risg o wanhau patrwm presennol y dirwedd a'r anhawster sydd ynghlwm â chymhathu coetiroedd newydd mewn ffordd sy'n parchu cymeriad cynhenid y dirwedd (er bod posibilrwydd na fyddant yn sensitif i blannu coetiroedd ar raddfa ac o fath tebyg).<br>Mae tirweddau sydd â choetiroedd cynhenid amrywiol (yn enwedig coetiroedd hynafol a/neu ddynodedig) yn debygol o fod yn fwy sensitif i gyflwyno coetiroedd newydd. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd hynny, mae plannu coetiroedd ar raddfa fach-ganolig yn gallu cryfhau ac estyn patrwm presennol y coetiroedd cynhenid os byddant yn cael eu lleoli'n sensitif ac yn adlewyrchu patrwm y rhywogaethau a geir yno. Bydd tirweddau sydd â hanes o goetiroedd yn llai sensitif i'w hailgyflwyno na'r rhai heb unrhyw hanes o goetiroedd.<br>Bydd coetiroedd newydd yn llai ymwthiol ar y cyfan mewn tirweddau sydd â phatrymau geometrig o goedwigoedd conifferaidd unffurf neu ardaloedd wedi'u llwyrdorri ble byddai creu coetiroedd yn arwain at gael rhywogaethau mwy amrywiol, ymylon afreolaidd a llennyrch. Os yw'r planhigfeydd hyn ar safleoedd coetiroedd hynafol, mae cyfle i'w hadfer yn goetiroedd llydanddail gyda phlanhigion llawr cynhenid amrywiol, gan gynyddu eu bioamrywiaeth yn sylweddol. | | | | |
| **Isel** | **Isel-Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cymedrol-Uchel** | **Uchel** |
| Tirwedd ag ychydig iawn o goetir llydanddail yn sgil clirio hanesyddol, a/neu dirweddau gyda choedwigoedd conifferaidd helaeth ac unffurf. | Ardal ag ychydig o goetir llydanddail a/neu ardaloedd o goedwigoedd conifferaidd unffurf. | Tirwedd â chymysgedd o blanhigfeydd conifferaidd a choetiroedd llydanddail, heb batrwm coetiroedd gweladwy | Tirwedd â phatrwm nodweddiadol o arwynebedd coetir, a llawer o hwnnw yn goetir llydanddail cynhenid | Tirwedd a nodweddir gan batrwm nodweddiadol cryf o arwynebedd coetir presennol a/neu sydd â choetiroedd llydanddail cynhenid helaeth (a rhywfaint yn hynafol/dynodedig) |

| Cymeriad hanesyddol y dirwedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gallai coetiroedd a choed unigol fod yn gydrannau o dirwedd yr amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, mae plannu coetiroedd newydd yn gallu amharu ar gymeriad hanesyddol os cânt eu lleoli'n amhriodol. Ble mae plannu yn debygol o effeithio neu amharu ar gymeriad hanesyddol y dirwedd ei hun, a/neu leoliad/cymeriad nodweddion archaeolegol a hanesyddol (yn enwedig asedau treftadaeth sydd â dynodiadau cenedlaethol neu leol megis Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), mae'n debygol y bydd mwy o sensitifrwydd. Mae plannu coetiroedd yn gallu cael effaith hefyd ar nodweddion archaeolegol claddedig neu ar yr wyneb os cânt eu plannu mewn modd amhriodol (e.e. Henebion y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol). Cyfeiriwch at yr Asesiad o Gymeriad Tirweddau Hanesyddol[12] sy'n astudio cymeriad hanesyddol ardaloedd sydd wedi'u nodi ar y Gofrestr o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru..<br>Mae tirweddau sydd heb fawr o gymeriad hanesyddol a/neu sydd ag ychydig o nodweddion hanesyddol sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd, yn debygol o fod yn llai sensitif i goetiroedd newydd. | | | | |
| **Isel** | **Isel-Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cymedrol-Uchel** | **Uchel** |
| Tirwedd sydd heb fawr ddim cymeriad hanesyddol a/neu sydd ag ychydig o nodweddion hanesyddol sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd a/neu lle mae plannu coed yn debygol o | Tirwedd heb fawr o gymeriad hanesyddol a nifer fach o nodweddion hanesyddol sy'n bwysig i'r ardal cymeriad tirwedd a/neu lle mae plannu coed yn debygol o gael effaith ar raddfa isel-gymedrol ar yr amgylchedd hanesyddol. | Tirwedd sydd â rhywfaint o gymeriad hanesyddol a/neu nodweddion hanesyddol sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd a/neu lle mae plannu coed yn debygol o gael effaith gymedrol ar yr amgylchedd hanesyddol. | Tirwedd sydd â chymeriad hanesyddol cryf a/neu lawer o nodweddion hanesyddol sydd o bwys i gymeriad y dirwedd a/neu lle mae plannu coed yn debygol o gael effaith ar raddfa gymedrol-uchel ar yr amgylchedd hanesyddol. | Tirwedd sydd â chymeriad hanesyddol cryf iawn a/neu sydd â dwysedd uchel o nodweddion hanesyddol sydd o bwys i gymeriad y dirwedd a/neu lle mae plannu coed yn debygol o gael effaith ar |

[12] Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Asesiad o Gymeriad Tirweddau Hanes3yddol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gael ychydig bach o effaith ar yr amgylchedd hanesyddol. | | | | raddfa uchel ar yr amgylchedd hanesyddol. |
| **Cymeriad gweledol (gan gynnwys nenlinau)** | | | | |
| Mae tirweddau sy'n hynod weladwy yn y dirwedd ehangach, yn enwedig mewn golygfeydd allweddol o aneddiadau, llwybrau gan gynnwys Llwybr yr Arfordir, neu lwybrau a hyrwyddir megis rhai Teithio Llesol, yn debygol o fod â lefel uwch o sensitifrwydd i blannu coetiroedd newydd, gan fod coetiroedd newydd yn gallu cuddio golygfeydd pwysig neu sensitif.<br>Mae nenlinau agored heb eu datblygu, neu nenlinau sydd â nodweddion tirnodol pwysig, yn debygol o fod yn fwy sensitif i blannu coetiroedd oherwydd y gallai coetiroedd newydd guddio'r nenlinau hynny fel nodweddion yn y dirwedd neu nodweddion tirnodol yn y nenlinau os na chânt eu lleoli'n briodol. Gallai nodweddion tirnodol pwysig mewn nenlinau gynnwys nodweddion hanesyddol neu henebion yn ogystal â thirffurfiau. | | | | |
| **Isel** | **Isel-Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cymedrol-Uchel** | **Uchel** |
| Tirwedd nad yw'n weladwy o lwybrau cerdded neu lwybrau a hyrwyddir a lle nad yw'r nenlinau yn amlwg, ac nid oes unrhyw nodweddion tirnodol pwysig yn y nenlin. | Tirwedd sy'n weladwy i raddau cyfyngedig o lwybrau cerdded neu lwybrau a hyrwyddir. Tirwedd ble mae'r nenlinau yn syml, yn wastad neu'n raddol amgrwm a/neu ble ceir ychydig iawn o nodweddion tirnodol. | Tirwedd sy'n weladwy o lwybrau cerdded neu lwybrau a hyrwyddir ac sydd â rhai nenlinau amlwg, ond nid yw'r rhain yn arbennig o nodedig – gall fod rhywfaint o nodweddion tirnodol yn y nenlin. | Tirwedd sy'n weladwy i raddau cyfyngedig o'r ardal o'i hamgylch, yn arbennig o lwybrau cerdded neu lwybrau a hyrwyddir. Tirwedd â nodweddion tirnodol pwysig. | Tirwedd sy'n hynod weladwy o'r ardal o'i hamgylch, yn arbennig o lwybrau cerdded neu lwybrau a hyrwyddir. Tirwedd â nenlinau agored amlwg neu nodedig, neu â nodweddion tirnodol pwysig yn y nenlinau. |
| **Rhinweddau canfyddiadol a golygfaol** | | | | |
| Mae tirweddau sydd â rhinweddau annirweddol, megis natur anghysbell, llonyddwch neu gysylltiadau diwylliannol sy'n gwneud lleoliad yn arbennig neu'n unigryw, yn tueddu i fod yn fwy sensitif i blannu coetiroedd newydd, gan fod coetiroedd yn gallu cael effaith sylweddol ar rinweddau cydnabyddedig tirwedd a'r ffordd y bydd pobl yn cael profiad ohoni. Mewn ardaloedd ble mae coetiroedd presennol yn nodweddiadol o'r dirwedd, bydd angen ystyried yr effeithiau negyddol posib ble byddai cynyddu cyrhaeddiad coetiroedd yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n peri dirywiad i rinweddau golygfaol y dirwedd. Mae hyn yn cynnwys yn arbennig y tirweddau sydd wedi'u cydnabod yn genedlaethol am eu hansawdd golygfaol, megis y Parc Cenedlaethol.<br>Bydd coetiroedd newydd yn llai ymwthiol ar y cyfan mewn tirweddau sydd wedi'u dylanwadu gan weithgaredd ac ymyrraeth ddynol amlwg, gan gynnwys aneddiadau modern, datblygiadau diwydiannol a masnachol, a seilwaith. Byddai'r tirweddau hyn yn elwa o blannu rhagor o goetiroedd a fydd yn rhoi fframwaith tirwedd newydd i helpu i gymhathu/sgrinio ardaloedd sydd â datblygiadau newydd. | | | | |
| **Isel** | **Isel-Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cymedrol-Uchel** | **Uchel** |
| Tirweddau â llawer o weithgaredd dynol a datblygiadau modern, gan gynnwys ardaloedd preswyl, masnachol, neu ddiwydiannol. | Tirwedd wledig neu led-wledig gyda llawer o weithgaredd dynol a datblygiadau modern gwasgaredig, megis ymylon aneddiadau. | Tirwedd wledig gyda rhywfaint o ddatblygiadau modern a gweithgaredd dynol, megis tir amaeth dwys. | Tirwedd naturiolaidd/wledig ag ychydig o ddylanwad dynol a datblygiadau. | Tirwedd naturiolaidd/wledig heb unrhyw arwydd amlwg o weithgaredd dynol a datblygiadau modern. |

# Chapter 3
# Cymeriad tirwedd presennol a chanllawiau ar gyfer creu coetiroedd

## Arwynebedd coetir ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**3.1** Mae Cymru yn un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop, gyda choetir ar 15% o arwynebedd y tir, o gymharu â chyfartaledd yr UE o 38%[13]. Mae cymeriad coetiroedd yng Nghymru wedi ei ddylanwadu gan ddefnydd tir hanesyddol a pholisïau blaenorol llywodraethau, ac mae'r rhan fwyaf o goetiroedd nawr naill ai yn goetiroedd conifferaidd yn anad dim neu'n goetiroedd cynhenid sy'n bennaf yn fach ac yn bytiog.

**3.2** Cyfanswm arwynebedd coetiroedd yng Nghymru ar hyn o bryd ydy 306,000ha[14] ac ychydig o newid sydd wedi bod i hynny yn yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r natur bytiog yn bwysau sylweddol sy'n effeithio ar gyflwr coetiroedd cynhenid, gyda bron i 22,000 o goetiroedd wedi'u nodi yn rhai sy'n llai na 2ha. Ceir effeithiau negyddol ar gyflwr coetiroedd hefyd yn sgil pwysau pori gan anifeiliaid amaethyddol a gwyllt, ac mae iechyd coed yn dirywio oherwydd lledaeniad plâu, afiechydon a phathogenau megis *Phytophthora ramorum* (sy'n effeithio ar goed llarwydd yn arbennig), Dirywiad Derw Acíwt a *Chalara fraxinea* (clefyd coed ynn). Bydd cyflwr a helaethrwydd coetiroedd yn cael eu heffeithio fwyfwy gan newid yn yr hinsawdd a bydd pwysau gan blâu ac afiechydon yn cynyddu yn y dyfodol.

**3.3** Mae gorchudd coetiroedd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn llai na chyfartaledd Cymru, gyda choetiroedd yn ddim ond 8.75% o gyfanswm y gorchudd tir (5,374 ha)[15].

- Mae coetiroedd conifferaidd yn ffurfio 12.4% o'r coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn gymysgedd o goedydd sydd wrthi'n cael eu trawsnewid a'u hadfer i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau a strwythur neu goedydd un-rhywogaeth o'r un oed a grëwyd yn ystod yr 20fed ganrif sydd wedi cael eu rheoli gan fwyaf drwy lwyrdorri. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn bennaf yn ardaloedd ucheldir Mynydd Carningli (ACT 22) a Mynydd Preseli (ACT 27). Mae coetiroedd planhigfeydd estron wedi'u cyflwyno hefyd ar hyd

[13] Cyfoeth Naturiol Cymru / Pam mae angen rhagor o goed arnom - manteision creu coetiroedd newydd
[14] Yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesiad o Reolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol. Adroddiad Technegol. www.naturalresourceswales.gov.uk

[15] Daw'r ystadegau ynglŷn ag arwynebedd coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol o raglen y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol (RhGG) sy'n monitro coetiroedd a choed ym Mhrydain Fawr.

llethrau'r morydau llydan megis Daugleddau (ACT28), a'r rheiny'n aml wedi'u plannu ar safleoedd coetiroedd hynafol (PCHau).

- Mae coetiroedd cynhenid yn ffurfio 64.4% o'r holl goetir yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain ar raddfa fach yn bennaf (llai na 5ha) ac wedi'u lleoli yn y dirwedd amaethyddol neu'n cynnwys coetiroedd mwy helaeth ar hyd glannau afonydd a morydau'r Parc Cenedlaethol. Mae gweddill y coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol yn gymysg, neu'n dod o dan fathau eraill o goetiroedd yn y RhGG[16].
- Nid yw'r holl goetiroedd cynhenid yn hen, ond mae cyfran sylweddol (37% o'r holl goetir yn y Parc Cenedlaethol) wedi bod yn goediog yn barhaus ers 400 mlynedd ac felly yn cael eu dosbarthu fel coetir hynafol (gan gynnwys rhywfaint o fewn PCHau).
- Mae cyfran sylweddol o'r coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol yn goed sy'n tyfu ar hyd nodweddion llinol, gan gynnwys gwrychoedd, a nentydd, ac mae'r gweddill yn goed mewn perllannau, coed pori, parcdir ac ardaloedd trefol. Hyd yn oed mewn ardaloedd sydd heb lawer o orchudd coetir, mae coetiroedd llydanddail wedi crynhoi fel arfer yn nyffrynnoedd cysgodol y nentydd sy'n llifo i'r arfordir.



Moryd Daugleddau ACT 28

**3.4** Mae gwahaniaethau amlwg o safbwynt gorchudd coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol, gydag ardaloedd coediog iawn wedi crynhoi yn nyffrynnoedd yr afonydd a'r morydau. Mae hyn yn cynnwys dyffrynnoedd afonydd Gwaun a Nyfer (ACT 26) ble mae gorchudd coetiroedd yn fwy na hanner arwynebedd y tir ar hyn o bryd (52.6%) ac ar hyd y morydau yn Ystagbwll (ACT 5) lle mae'n 34% a Daugleddau (ACT 28) lle mae'n 20%. Mae gorchudd coetiroedd ar hyd Brandy Brook (ACT 13) a Dyffryn Solfach (ACT 14) yn amrywio rhwng 20% a 7.6% yn y drefn honno. Mae coetiroedd glan afon yn nodwedd gyffredin ar loriau a llethrau'r dyffrynnoedd, gyda choetiroedd torlannol yn dilyn cyrsiau afonydd a'u llednentydd. Mae coed parcdir yn gysylltiedig hefyd â gerddi a pharciau tai hanesyddol a welir ar hyd moryd Daugleddau (ACT 28).

**3.5** Mae gan ardaloedd ucheldir Bryniau Preseli (ACT 27) a Bryniau Carningli (ACT 22) goetiroedd helaeth hefyd, wedi'u crynhoi ar y llethrau isaf, gan gynnwys planhigfeydd conifferaidd ym Mryniau Preseli. Fodd bynnag, mae'r coetiroedd hyn yn llai na 10% o gyfanswm gorchudd tir yr ACTau oherwydd eu llethrau uchaf sy'n nodweddiadol agored a digysgod. Mae prysgwydd gwasgarog yn nodwedd ar y llethrau uchaf serth, lle mae'r dirwedd yn trawsnewid i fod yn ardaloedd o ucheldir agored. Mae coetiroedd bach yn dilyn llwybr cyrsiau dŵr llai ac yn cyfrannu at batrwm y dirwedd sy'n cynnwys caeau pori a choetiroedd ar y llethrau isaf.



Bryniau Preseli ACT 27

**3.6** Ychydig iawn o arwynebedd coetir a geir yn yr ardaloedd arfordirol agored. Ym Meysydd Castellmartin/Merrion (ACT 6), Cyrion Purfa Herbrandston (ACT 11), a Phentir Tyddewi (ACT 18), yn ogystal â'r tir comin mewndirol yng Nghomin Dowrog a Chomin Tretio (ACT 15), mae gorchudd coetiroedd yn llai na 2%. Mewn ardaloedd eraill o dir amaeth iseldir ar hyd yr arfordir, gan gynnwys Penrhyn Angle (ACT 7), Freshwater West/Twyni Brownslade (ACT 8), Marloes (ACT 9), Bae Sain Ffraid (ACT 12), Trefin (ACT 20), mae gorchudd coetiroedd yn llai na 4%. Mae'r coetiroedd yn yr ardaloedd hyn yn rhai bach ar y cyfan gydag ambell lecyn llinol o goed yn dilyn cyrsiau dŵr llai neu'n gysylltiedig ag aneddiadau a ffermydd arfordirol, lle mae grwpiau o goed neu goed unigol yn darparu cysgod yn yr amodau agored. Ar ynysoedd morol Sgomer, Sgogwm ac Ynys Dewi, nid oes unrhyw goetiroedd i bob pwrpas.

[16] Mae Mathau o Goetiroedd y RhGG yn cynnwys Llydanddail, Conifferaidd, Cymysg (llydanddail yn bennaf), Cymysg (conifferaidd yn bennaf), Llwyni, Coed ifanc, Dwysedd isel, Paratoi Tir, Coetir Tybiedig a Choetir Wedi'i Dorri..



Pen Caer ACT 21

**3.7** Ar y pentiroedd agored, gan gynnwys Carn Llidi (ACT 16), Pen Caer (ACT 21), Pen Dinas (ACT 24) a Phen Cemaes (ACT 25), mae coetiroedd yn gyfyngedig i grwpiau bychain o goed yn y dirwedd amaethyddol, neu wedi'u crynhoi yng nghysgod dyffrynnoedd toredig y nentydd sy'n llifo i'r arfordir. Yn aml, nid oes unrhyw goed yn nherfynau'r caeau, ac eithrio mewn ardaloedd mewndirol ymhellach o'r arfordir.



Carn Llidi ACT 16

**3.8** Mae gan y tir amaeth mwy cysgodol yn Arfordir Anheddog Saundersfoot (ACT 1) a Maenorbŷr/Freshwater East (ACT 4) gymeriad coediog iawn oherwydd y ceir coed gwrych mwy aeddfed ar hyd terfynau caeau, a choetiroedd llinol ar hyd dyffrynnoedd nentydd neu o amgylch aneddiadau. Mae cynnwys y coetiroedd yn amrywio, gyda rhywfaint o goetiroedd llydanddail a rhywfaint o goetiroedd cymysg neu goniferaidd. Mae ystadau parcdir sydd â choed o gryn oedran yn nodweddion hefyd yn Arfordir Anheddog Saundersfoot (ACT 1).

**Arwynebedd coetir mewn ardaloedd trefol yn y Parc Cenedlaethol**

**3.9** Amcangyfrifwyd bod arwynebedd coed trefol yn Sir Benfro yn 13.5% yn 2013 (llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.3%)[17]. Mae coetiroedd trefol yn 35% o arwynebedd canopi trefol Cymru, gyda'r gweddill yn goed 'amwynder', sy'n tyfu ar hyd strydoedd, mewn meysydd parcio a mannau eraill cyhoeddus a phreifat. Mae'r rhan fwyaf o goed a choetiroedd trefol yn llydanddail ac yn aml, mae'r coed yn rhywogaethau gwydn iawn sy'n gwrthsefyll llygredd.

**3.10** Mae'r gorchudd canopi mewn trefi arfordirol yng Nghymru yn aml yn isel, ac mae Trefdraeth a Thyddewi yn nodweddiadol yn hyn o beth. I'r gwrthwyneb, mae Dinbych-y-Pysgod (17.4% o orchudd canopi) yn uwch na chyfartaledd Cymru, gan ddangos bod sefydlu rhwydwaith gwydn o goed a choetiroedd o fewn trefi arfordirol agored yn gallu helpu i leddfu'r amgylchedd a darparu amodau byw mwy cysurus. Er gwaethaf graddfa isel eu gorchudd canopi, mae'r trefi arfordirol bychain hyn yn elwa yn sgil eu lleoliad naturiol cryf sy'n cyfrannu'n fawr at yr ymdeimlad o le. Mae gan Drefdraeth yn arbennig ymdeimlad o fod yn dref mewn coetir pan gaiff ei gweld o'r ochr draw i'r foryd.

## Manteision plannu coed a choetiroedd

**3.11** Fel y nodwyd yn gynharach, mae plannu coed a choetiroedd yn gallu dod â llu o fanteision i fyd natur ac i gymdeithas. Yn ogystal â gweithredu fel dalfa garbon a chynhyrchu pren, mae coetiroedd yn darparu nifer o wasanaethau ecosystemau eraill: darparu cynefin pwysig i amrywiaeth o rywogaethau, lleihau llygredd aer a risg llifogydd yn is i lawr llif y dŵr, gwella iechyd a lles cymunedol drwy ddarparu gofodau ar gyfer gweithgareddau hamdden, a chyfrannu at dreftadaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o le. Mae gan goetiroedd a choed rôl hollbwysig i'w chwarae yn helpu pobl a bioamrywiaeth i addasu yn wyneb effeithiau hinsawdd sy'n newid, sy'n debygol o gynnwys newidiadau yn y patrwm glawio, risg uwch o lifogydd, a thymereddau brig uwch. Mae coetiroedd hefyd yn elfennau gweledol pwysig yn y dirwedd sy'n gallu gwneud cyfraniad sylweddol at ymdeimlad o le.

**3.12** Mae coetiroedd a choed trefol yn gallu darparu rhychwant tebyg o fanteision fel cydrannau yn y seilwaith gwyrdd o fewn ac o amgylch y pentrefi a'r trefi yn y Parc Cenedlaethol. Yn ogystal â chyfrannu at y cymeriad trefol drwy ddod ag elfennau naturiol i mewn i ardaloedd trefol ac adfer tir diffaith, maent yn gallu cyfrannu at ansawdd bywyd trefol drwy ddarparu mannau ar gyfer hamdden ac ymlacio. Mae modd eu defnyddio i leihau amlygrwydd gweledol digroeso adeiladweithiau caled yn y dirwedd ehangach, gan gynnwys adeiladau a ffyrdd, ac i feddalu'r man cyfarfod rhwng yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol. Mae coed

[17] Cyfoeth Naturiol Cymru, Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru (2016)

mewn strydoedd a pharciau yn helpu hefyd i leihau llygredd sŵn, trechu llygredd aer, lleihau'r tymheredd mewn ardaloedd trefol yn yr haf a lleihau'r pwysau ar systemau draenio trefol drwy amsugno dŵr.

### Y goeden iawn yn y man iawn

**3.13** Fel y cydnabydda Canllawiau ar Goedwigoedd a Thirweddau Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig[18]:

> 'Mae gwerthfawrogi cymeriad tirwedd yn helpu i bennu capasiti'r dirwedd i dderbyn coedwigoedd newydd a'u dyluniad mewn perthynas â nodweddion tirwedd allweddol ardal benodol. Mewn tirwedd werthfawr, mae coedwigoedd, coetiroedd a choed newydd yn gallu cael effaith sylweddol ar y rhinweddau a gydnabyddir a'r ffordd y bydd pobl yn cael profiad o'r dirwedd'.

**3.14** Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn un o Barciau Cenedlaethol lleiaf y Deyrnas Unedig, ond mae ei dirweddau ymhlith y mwyaf amrywiol a dyma'r unig Barc Cenedlaethol sydd wedi'i ddynodi yn sylfaenol oherwydd ei dirwedd arfordirol unigryw.

**3.15** Yn ecolegol, mae'n un o'r rhannau cyfoethocaf a mwyaf amrywiol yng Nghymru ac mae wedi'i gydnabod yn fan sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer rhychwant eang o gynefinoedd o ansawdd uchel a rhywogaethau prin. Mae gwerth ecolegol uchel nifer o rannau o'r Parc Cenedlaethol yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o ddynodiadau cadwraeth natur sy'n cynnwys 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (mae tair ACA forol yn gorgyffwrdd â thua 75% o arfordir y Parc ac yn gorchuddio tua 60% o'r ardal fewndirol), pum Ardal Gwarchodaeth Arbennig, un Parth Cadwraeth Morol yn Sgomer, saith Gwarchodfa Natur Genedlaethol a 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) – gydag 80% o arfordir y Parc Cenedlaethol wedi'i ddynodi yn SoDdGA.

**3.16** Mae gan y Parc Cenedlaethol amgylchedd hanesyddol cyfoethog hefyd, gan gynnwys 286 o Henebion Cofrestredig, 14 Ardal Gadwraeth, a 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Mae lleiniau helaeth o'r Parc Cenedlaethol wedi'u cofrestru yn dirweddau hanesyddol arbennig neu eithriadol. Mae gan y Parc Cenedlaethol nifer o nodweddion hanesyddol nad ydynt wedi'u dynodi hefyd, gan gynnwys safleoedd archaeolegol ac adeiladau hanesyddol.

**3.17** Oherwydd cyfoeth y cyd-destun tirweddol, mae'r cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd yn gyfyngedig o ran math a maint. Nod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ydy sicrhau agwedd holistaidd gyda chynllunio da tuag at greu coetiroedd sy'n datblygu ar y fframwaith tirwedd presennol. Petai plannu coetiroedd yn cael ei ganiatáu ar draws tirwedd, byddai llawer o'r elfennau (a'r cyfuniad o elfennau) sy'n gwneud y dirwedd hon a ddiogelir yn genedlaethol yn nodedig yn cael eu cymylu neu eu colli. Gallai cynefinoedd lled-naturiol gwerthfawr gael eu disodli gan goetiroedd annodweddiadol neu'r posibilrwydd o adfer cynefinoedd amgen gael ei golli. Gallai nodweddion treftadaeth gael eu cuddio, neu gallai'r ymdeimlad o leoliad gwyllt ac anghysbell ar hyd yr arfordir unigryw gael ei wanhau. Felly, dylai creu coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol gael ei gynllunio mewn modd sy'n ystyried y cyd-destun tirweddol hwn er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad yr ardal leol.

## Canllawiau ar gyfer plannu coed a choetiroedd

**3.18** Caiff canllawiau ar y ffactorau sy'n cyfrannu at gynllunio priodol ar goetiroedd a phlannu coed yn y Parc Cenedlaethol eu hamlinellu isod yn **Nhabl 3.1**. Mae'r rhain yn gyson â'r canllawiau a roddir yn Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig. Mae LANDMAP yn ffynhonnell rhagor o wybodaeth berthnasol, yn benodol oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth am goetiroedd presennol, gan gynnwys gwerthusiadau a chanllawiau ar gyfer eu rheoli fel rhan o Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd.

### Canllawiau pellach

**3.19** Mae Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS)[19] yn amlinellu'r safon ar gyfer cynllunio a dylunio coedwigoedd a choetiroedd yn y Deyrnas Unedig a'u rheoli'n gynaliadwy ac mae'n darparu canllawiau gwerthfawr ar gyfer creu coetiroedd.

**3.20** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cynnig canllawiau hefyd ynglŷn â sut i dyfu'r goeden iawn yn y man iawn am y rhesymau iawn, ac mae canllawiau pellach ynglŷn â phlannu coed ar gael gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, gan gynnwys sut y gall plannu coed gyfrannu at fusnes fferm[20].

Table 3.1: **Canllawiau ar gyfer plannu coetiroedd a choed yn y Parc Cenedlaethol**

| Ffactor | Canllawiau |
|---|---|
| **Siâp** | Dylai coetiroedd newydd gael eu lleoli mewn modd sy'n gweddu'n dda gyda siapiau a phatrymau coetiroedd lled-naturiol presennol, gan gynnwys patrwm y rhywogaethau ynddynt. Mae coetiroedd yn y |

[18] Y Comisiwn Coedwigaeth, Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (2017)

[19] Y Comisiwn Coedwigaeth Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (2017)

[20] Coetiroedd Fferm Newydd

| Ffactor | Canllawiau |
|---|---|
| | Parc Cenedlaethol yn aml ar raddfa fach ac o siâp llinol, wedi'u lleoli ar hyd dyffrynnoedd cysgodol nentydd neu'n ymestyn ar hyd afonydd a morydau a dylid atgyfnerthu ac ehangu'r patrwm afreolaidd hwn. Mae patrymau presennol llystyfiant a rhywogaethau (sy'n adlewyrchu'r math o bridd, draenio, golwg ac amlygiad) hefyd yn gallu helpu i lywio dewisiadau ynglŷn â rhywogaethau i'w plannu. Byddai plannu mewn blociau geometrig o un rhywogaeth yn gallu amharu ar batrwm mwyaf cyffredin coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol . |
| **Tirffurfiau** | Dylai coetiroedd newydd yn y Penfro yn cydweddu â'r topograffi lleol, yn enwedig mewn ardaloedd bryniog neu fynyddig, ble gwelir mai tirffurfiau ydy'r dylanwad amlycaf ar y dirwedd. Dylai coetiroedd gael eu gosod ar hyd cyfuchliniau llethrau, megis llethrau'r dyffrynnoedd toredig, er mwyn cymhathu coetiroedd newydd â'u hamgylchedd. Dylid osgoi plannu coetiroedd mewn llinellau syth llorweddol neu fertigol ar draws y tirffurfiau neu mewn modd sy'n cuddio tirffurfiau nodedig megis brigiadau creigiog a chefnennau agored. |
| **Patrymau caeau** | Mewn ardaloedd o iseldir amaethyddol, ble gwelir mai patrymau caeau ydy'r dylanwad amlycaf ar y dirwedd, dylai coetiroedd atgyfnerthu ac ehangu'r patrwm caeau presennol, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â phatrymau caeau hanesyddol. Defnyddio coetiroedd newydd i ddarparu cysylltiadau â pherthi a choedlannau sy'n bodoli. Gallai plannu coetiroedd helaeth guddio patrwm cywrain graddfa-fach y tir ori amaethyddol a geir ledled y Parc Cenedlaethol, gan guddio patrymau caeau hanesyddol sy'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd. |
| **Graddfa** | Dylai graddfa coetiroedd newydd adlewyrchu graddfa'r dirwedd sy'n eu derbyn. Mae graddfa gywrain llawer o'r dirwedd amaethyddol yn y Parc Cenedlaethol yn golygu mai dim ond coetiroedd ar raddfa lai fyddai'n briodol, tra byddai plannu ar raddfa fawr yn gallu gwanhau cymeriad y dirwedd. |
| **Amrywiaeth** | Mae'r rhan fwyaf o'r coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol yn amrywiol o ran rhywogaethau. Mae coetiroedd amrywiol yn fwy deniadol yn weledol ac yn fwy cadarn yn ecolegol. Gellir gwella gwytnwch coetiroedd a'u gallu i addasu i newidiadau hinsoddol drwy gynyddu'r amrywiaeth o ran maint, oed a rhywogaethau coed mewn coetiroedd, a sicrhau y cânt eu rheoli'n briodol – gan gynnwys defnyddio technegau traddodiadol megis prysgoedio a thocio. |
| **Undod** | Sicrheir undod pan fydd coetiroedd yn cymhathu'n dda gyda nodweddion eraill y dirwedd. Dylid targedu creu coetiroedd er mwyn cynyddu cysylltedd cynefinoedd ar draws y dirwedd (cryfhau rhwydweithiau gwrychoedd a darparu cysylltiadau rhwng coetiroedd presennol) a darparu cysylltiadau gyda chynefinoedd lled-naturiol gwerthfawr eraill yn y Parc Cenedlaethol, megis glaswelltiroedd a rhostiroedd arfordirol. Wrth ddethol ardaloedd ar gyfer plannu coetiroedd, dylid ystyried presenoldeb cynefinoedd gwerthfawr presennol yn ogystal â'r potensial i adfer cynefinoedd amgen. Dylid annog adfywio naturiol ar gyfer coetiroedd cynhenid presennol a choloneiddio naturiol gan goed ar dir agored addas hefyd. |
| **Cymeriad gweledol** | Dylid lleoli mewn modd sy'n osgoi sgrinio neu guddio'r golygfeydd eang allan i'r môr ac ar hyd yr arfordir sy'n rhai o nodweddion neilltuol y Parc Cenedlaethol, neu guddio nodweddion tirnodol a'u lleoliadau. |
| **Cymeriad hanesyddol** | Mae gan y Parc Cenedlaethol amgylchedd hanesyddol cyfoethog. Dylid lleoli coetiroedd a blennir mewn modd sy'n diogelu cyfanrwydd nodweddion hanesyddol a chysylltiadau diwylliannol cryf y dirwedd. Dylid osgoi lleoli coetiroedd mewn ardaloedd lle gallant gael effaith niweidiol ar asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi neu wedi'u rhestru'n lleol neu ar eu lleoliad (gan gynnwys henebion cofrestredig a rhai nad ydynt wedi'u dynodi, adeiladau rhestredig a hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth). |
| **Rhinweddau canfyddiadol a golygfaol** | Dylid diogelu rhinweddau annirweddol tirwedd y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ei natur wyllt a thawel a'r cysylltiadau diwylliannol a chynllunio coetiroedd a blennir i bwysleisio yn hytrach nag amharu ar y rhinweddau hyn. Er enghraifft, gallai plannu coetiroedd helaeth amharu ar gymeriad agored y glannau a rhinweddau anghysbell ardaloedd yr ucheldir, sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad o fod mewn man gwyllt ac anghysbell sydd ymhlith nodweddion diffiniol y Parc Cenedlaethol. |

# Chapter 4
# Canlyniadau cyffredinol

## Mae'r bennod hon yn cyflwyno canlyniadau cyffredinol yr asesiad o sensitifrwydd y dirwedd

**4.1** Amlinellir sensitifrwydd cyffredinol y dirwedd ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirwedd yn y Parc Cenedlaethol yn **Nhabl 4.1** ac fe'i dangosir yn **Ffigyrau 4.1** i **4.8**. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd trefol yn y Parc Cenedlaethol.

**Dylid dehongli'r canlyniadau hyn ochr yn ochr â'r wybodaeth a'r canllawiau manwl a ddarperir yn y proffiliau asesu ar wahân.**

**Mae'r ACTau yn PCAP yn aml yn cynnwys ardaloedd o fwy ac o lai o sensitifrwydd tirwedd sy'n amrywio o'r sgoriau cyffredinol. Mae'n bwysig nodi cynnwys y proffiliau asesu unigol felly, gan gynnwys unrhyw sylwadau sy'n tynnu sylw at ardaloedd allai fod yn fwy sensitif i blannu coed a choetiroedd.**

**4.2** Mae'r proffiliau a'r canllawiau manwl ar gyfer creu coetiroedd ar gyfer pob ACT wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**.

Table 4.1: **Sgoriau sensitifrwydd tirwedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd**

| Cod yr ACT | Enw'r ACT | Coetiroedd Llydanddail | | | | Coetir Cymysg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Graddfa fach (<5ha) | Graddfa fach-ganolig (>5-15ha) | Graddfa ganolig (>15-30ha) | Graddfa fawr (>30ha) | Graddfa fach (<5ha) | Graddfa fach-ganolig (>5-15ha) | Graddfa ganolig (>15-30ha) | Graddfa fawr (>30ha) |
| ACT 1 | Arfordir Anheddog Saundersfoot | I | I | I-C | U | C-U | C-U | U | U |
| ACT 3 | Ynys Bŷr | C | U | U | U | U | U | U | U |
| ACT 4 | Maenorbŷr/Freshwater East | I | I-C | C | U | U | U | U | U |
| ACT 5 | Ystagbwll | I | I | I-C | U | U | U | U | U |
| ACT 6 | Meysydd Castellmartin/Merrion | I-C | I-C | C | C-U | U | U | U | U |
| ACT 7 | Penrhyn Angle | I | C | C | C-U | U | U | U | U |
| ACT 8 | Freshwater West/Twyni Brownslade | C-U | U | U | U | U | U | U | U |
| ACT 9 | Marloes | I | I-C | C | U | U | U | U | U |
| ACT 10 | Sgomer a Sgogwm | U | U | U | U | U | U | U | U |
| ACT 11 | Cyrion Purfa Herbrandston | I | I-C | C | C-U | U | U | U | U |
| ACT 12 | Bae Sain Ffraid | I-C | C | C | U | U | U | U | U |
| ACT 13 | Brandy Brook | I | I | I-C | C-U | U | U | U | U |
| ACT 14 | Cwm Solfach | I | I-C | C | C-U | U | U | U | U |
| ACT 15 | Comin Dowrog a Chomin Tretio | I-C | C | C-U | U | U | U | U | U |
| ACT 16 | Carn Llidi | C | U | U | U | U | U | U | U |
| ACT 18 | Pentir Tyddewi | I-C | C | C-U | U | U | U | U | U |

| Cod yr ACT | Enw'r ACT | Coetiroedd Llydanddail | | | | Coetir Cymysg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Graddfa fach (<5ha) | Graddfa fach-ganolig (>5-15ha) | Graddfa ganolig (>15-30ha) | Graddfa fawr (>30ha) | Graddfa fach (<5ha) | Graddfa fach-ganolig (>5-15ha) | Graddfa ganolig (>15-30ha) | Graddfa fawr (>30ha) |
| ACT 19 | Ynys Dewi | U | U | U | U | U | U | U | U |
| ACT 20 | Trefin | I-C | C | U | U | U | U | U | U |
| ACT 21 | Pen Caer/Pen Strwmbwl | I-C | C-U | U | U | U | U | U | U |
| ACT 22 | Mynydd Carningli | I | I-C | C | C | C | C-U | C-U | U |
| ACT 24 | Pen Dinas | I | C | C-U | U | U | U | U | U |
| ACT 25 | Pen Cemaes | I | I | C | U | U | U | U | U |
| ACT 26 | Cwm Gwaun/Afon Nyfer | I | I | C | U | U | U | U | U |
| ACT 27 | Mynydd Preseli | I | I-C | C | C | C | C-U | C-U | U |
| ACT 28 | Daugleddau | I | I | I-C | C | C | C | C-U | U |

**Figure 4.1: Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd llydanddail ar raddfa fach - Gweler dalennau ar wahân**

**Figure 4.2: Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd llydanddail ar raddfa fach-ganolig - Gweler dalennau ar wahân**

**Figure 4.3: Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd llydanddail ar raddfa ganolig - Gweler dalennau ar wahân**

**Figure 4.4: Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd llydanddail ar raddfa fawr - Gweler dalennau ar wahân**

**Figure 4.5: Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd cymysg ar raddfa fach - Gweler dalennau ar wahân**

**Figure 4.6: Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd cymysg ar raddfa fach-ganolig - Gweler dalennau ar wahân**

**Figure 4.7: Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd cymysg ar raddfa ganolig - Gweler dalennau ar wahân**

**Figure 4.8:** **Sensitifrwydd tirwedd i goetiroedd cymysg ar raddfa fawr - Gweler dalennau ar wahân**

# Chapter 5
# Cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd

## Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd

**5.1** Mae'r cyfleoedd ar gyfer plannu coed a chreu coetiroedd yn y dyfodol ar gyfer tirweddau 'nodweddiadol' a welir yn y Parc Cenedlaethol wedi'u crynhoi yn **Nhabl 5.1**. Mae'r canllawiau yn gysylltiedig â'r mathau canlynol o dirweddau:

- tir amaeth arfordirol agored
- tir amaeth arfordirol coediog
- morydau a dyffrynnoedd afonydd
- ucheldiroedd
- ynysoedd
- pentiroedd creigiog
- ardaloedd trefol

**5.2** Drwy ddefnyddio darluniau, tynnir sylw at leoliadau priodol ar gyfer plannu coed a choetiroedd ar gyfer y tirweddau 'nodweddiadol' hyn.

**Table 5.1: Cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd mewn tirweddau nodweddiadol a geir yn y Parc Cenedlaethol**

| Grŵp ACT | ACTau | Cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd |
|---|---|---|
| Tir amaeth arfordirol agored | ACT 6 Meysydd Castellmartin/Merrion<br>ACT 7 Penrhyn Angle<br>ACT 8 Freshwater West/Twyni Brownslade<br>ACT 9 Marloes<br>ACT 11 Cyrion Purfa Herbrandston<br>ACT 12 Bae Sain Ffraid<br>ACT 15 Comin Dowrog a Chomin Tretio<br>ACT 18 Pentir Tyddewi<br>ACT 20 Trefin | Cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer creu coetiroedd a geir yn yr ACTau ar hyd arfordir y Parc Cenedlaethol, oherwydd eu cynefinoedd lled-naturiol helaeth (yn enwedig ar hyd y rhimyn arfordirol), eu cymeriad agored neilltuol a'u golygfeydd eang, a'r ymdeimlad cryf o le a chysylltiad â'r môr.<br><br>Mae cyfleoedd ar gyfer plannu coetiroedd ar raddfa fach neu fach-ganolig (neu'n achlysurol, ar raddfa ganolig) o'u lleoli mewn modd sy'n atgyfnerthu patrwm caeau traddodiadol y dirwedd a amaethir, neu o'u plannu i gynyddu cysylltedd coetiroedd llinol presennol ar hyd dyffrynnoedd nentydd neu i ddarparu cysylltedd â chynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd. Mae cyfleoedd hefyd i adfer lleiniau colledig o wrychoedd ac i blannu coed gwrychoedd newydd.<br><br>Gellid defnyddio coetiroedd newydd hefyd er mwyn sgrinio datblygiadau ar ffermydd neu ddatblygiadau twristiaeth ar raddfa fach.<br><br>Dim ond o'u defnyddio i sgrinio golygfeydd tuag at ddatblygiadau diwydiannol ar raddfa fawr, megis purfeydd olew neu derfynfeydd LNG e.e. Penrhyn Angle (ACT 7) neu Gyrion Purfa Herbrandston (Act 11), y mae creu coetiroedd ar raddfa fawr yn briodol. |
| Tir amaeth arfordirol coediog | ACT 1 Arfordir Anheddog Saundersfoot<br>ACT 4 Maenorbŷr/Freshwater East | Mae rhai cyfleoedd i gynyddu arwynebedd coetiroedd yn yr ACTau arfordirol mwy cysgodol hyn, yn enwedig yn y dirwedd a amaethir sydd i mewn o'r arfordir, neu ble mae patrwm y caeau yn fwy. Ceir cyfleoedd ar gyfer ailstrwythuro planhigfeydd conifferaidd presennol, gan weithio tuag at adfer yn raddol i glytwaith o goetiroedd cymysg neu lydanddail. Gallai coed a choetiroedd a blennir o'r newydd ddarparu cysylltiadau rhwng coetiroedd presennol mewn dyffrynnoedd, yn ogystal â sgrinio datblygiadau twristiaeth megis safleoedd gwersylla neu garafanau. |
| Morydau a dyffrynnoedd afonydd | ACT 5 Ystagbwll<br>ACT 13 Brandy Brook<br>ACT 14 Cwm Solfach<br>ACT 28 Daugleddau<br>ACT 26 Cwm Gwaun/Afon Nyfer | Mae cyfleoedd i gynyddu gorchudd coetiroedd ar hyd morydau a dyffrynnoedd afonydd coediog y Parc Cenedlaethol. Gallai plannu coetiroedd yn yr ACTau hyn gryfhau cymeriad presennol y dirwedd o'u cynllunio mewn modd fyddai'n ehangu patrwm presennol y coetiroedd llinol ar hyd y prif forydau a dyffrynnoedd afonydd. Gallai coetiroedd ar raddfa fach neu fach-ganolig gynyddu cysylltedd ar hyd dyffrynnoedd llednentydd bychain gan ehangu coetiroedd torlannol, a gwella rheolaeth llifogydd, a helpu i atal erydiad pridd.<br><br>Gallai arwynebedd coetir ar raddfa fach ymestyn i mewn i'r dirwedd amaethyddol hefyd, ond dylai'r rhain orwedd oddi mewn i'r patrwm caeau traddodiadol.<br><br>Mae cyfle mewn llawer o'r ACTau hyn i ailstrwythuro planhigfeydd presennol (gan gynnwys PCHau) i wella gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd drwy gael mwy o amrywiaeth o ran oed a rhywogaethau e.e. Ystagbwll (ACT 5), Brandy Brook (ACT 13), Cwm Gwaun/Afon Nyfer (ACT 26), Daugleddau (ACT 28). |

| Grŵp ACT | ACTau | Cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd |
|---|---|---|
| | | Mae cyfleoedd hefyd ar gyfer meddalu ymylon aneddiadau e.e. Cwm Solfach (ACT 14). |
| Ucheldiroedd | ACT 22 Mynydd Carningli<br>ACT 27 Mynydd Preseli | Mae'r tirweddau ucheldir hyn yn nodweddiadol yn agored ar y llethrau uchaf ac mae'r cefnennau creigiog yn gwneud cyfraniad cryf iawn at gymeriad y Parc Cenedlaethol a dylid osgoi plannu ar y llethrau uchaf a'r cefnennau creigiog. Mae'r ailstrwythuro sy'n mynd rhagddo ar goetiroedd conifferaidd presennol yn creu cyfle i weithio tuag at adfer yn raddol i glytwaith o goetiroedd cymysg neu lydanddail, ac i ddarparu manteision sy'n amrywio o well mynediad i'r cyhoedd, i rwydweithiau cynefinoedd, gwytnwch hinsoddol a gwell gwerth tirweddol.<br>Mae rhai cyfleoedd i gynyddu gorchudd coetiroedd ar y llethrau isaf. Gallai ymestyn coetiroedd/prysgwydd ar hyd llednentydd yn yr ucheldir roi mwy o gysylltedd hefyd ag ardaloedd mwy helaeth o goetir mewn dyffrynnoedd afonydd cyffiniol yn yr iseldir.<br>Gallai plannu coetiroedd/coed gwrychoedd atgyfnerthu'r patrwm graddfa-fach yn y tir amaethyddol cyffiniol a sgrinio datblygiadau ar ffermydd neu ddatblygiadau twristiaeth ar raddfa fach. |
| Ynysoedd | ACT 3 Ynys Bŷr<br>ACT 10 Sgomer a Sgogwm<br>ACT 19 Ynys Dewi | Nid oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd ar yr ynysoedd morol oherwydd eu lefel uchel o sensitifrwydd i newid (oherwydd eu cynefinoedd lled-naturiol helaeth, olion archaeolegol, cymeriad agored neilltuol a golygfeydd eang), ac eithrio ar Ynys Bŷr, ble gellid defnyddio plannu coetiroedd ar raddfa fach i ehangu a mewnlenwi ac i feddalu ymylon yr ardal goediog bresennol. |
| Pentiroedd creigiog | ACT 16 Carn Llidi<br>ACT 21 Pen Caer/Pen Strwmbwl<br>ACT 24 Pen Dinas<br>ACT 25: Pen Cemaes | Cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer creu coetiroedd a geir ar y pentiroedd creigiog hyn gan y byddai'n amharu ar y tirffurfiau arfordirol cywrain a'r copaon creigiog, yn ogystal â'r cynefinoedd lled-naturiol helaeth, y cymeriad agored neilltuol a'r golygfeydd eang, a'r ymdeimlad cryf o fod yn anghysbell a'r cysylltiad â'r môr.<br>Mae rhai cyfleoedd ar gyfer plannu coetiroedd ar raddfa fach (neu'n achlysurol ar raddfa fach-ganolig) yn y dirwedd amaethyddol o'u lleoli i atgyfnerthu'r patrwm caeau traddodiadol ac i ddarparu cysylltedd cynefinoedd, gan gadw ac atgyfnerthu rhwydweithiau presennol. Byddai plannu ar raddfa fach-ganolig neu raddfa ganolig hefyd yn gallu cynyddu cysylltedd coetiroedd llinol presennol ar hyd cyrsiau dŵr sy'n llifo i'r arfordir. Mae cyfleoedd hefyd i adfer terfynau caeau a gollwyd ac i blannu coed gwrychoedd newydd mewn lleoliadau mwy cysgodol.<br>Byddai modd hefyd creu coetiroedd i sgrinio datblygiadau mewn pentrefi neu ar ffermydd neu ddatblygiadau twristiaeth ar raddfa fach. |
| ardaloedd trefol | ACT 2 Dinbych-y-Pysgod<br>ACT 17 Tyddewi | Mae coetir trefol fwyaf gwerthfawr pan fydd yn agored i'r boblogaeth leol ac yn ffurfio rhan o seilwaith gwyrdd rhyng-gysylltiol a rhwydwaith o lwybrau a nodweddion hamdden. Er mwyn i goetiroedd gynnig y manteision mwyaf posib i |

| Grŵp ACT | ACTau | Cyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd |
|---|---|---|
| | ACT 23 Trefdraeth | gymunedau lleol, rhaid iddynt gael eu rheoli'n dda. Dylid cyfeirio at y Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer y Parc Cenedlaethol.[21]<br><br>Nid yw pob gofod gwyrdd trefol neu dir trefol ymylol yn addas ar gyfer coetiroedd ac mae angen cydbwysedd rhwng cynefinoedd a defnydd tir. Mewn rhai ardaloedd, mae gofod gwyrdd agored yn darparu mwy o fanteision yn sgil hanes hir fel tir comin agored neu'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y gymuned. Mae llawer o'r trefi yn y Parc Cenedlaethol wedi'u lleoli ar yr arfordir ac mae ganddynt gynefinoedd lled-naturiol gwerthfawr megis glaswelltir arfordirol, glaswelltir twyni, a phrysgwydd, neu gall fod ganddynt nodweddion sydd o werth archaeolegol neu hanesyddol a byddent felly yn anaddas ar gyfer plannu coetiroedd.<br><br>Dylid cadw coetiroedd presennol a choed amwynder a'u hestyn lle bynnag y bo modd, a gwella cysylltedd â choetiroedd ar ymylon y trefi neu mewn ardaloedd gwledig cyffiniol.<br><br>Mae coed stryd aeddfed yn aml yn waddol o'r cyfnodau Fictoraidd neu Edwardaidd ac yn gynyddol, mae angen cael rhai yn eu lle. Mae cyfle i wella'r coedlun trefol drwy blannu coed ar raddfa fawr gyffelyb.<br><br>Mewn safleoedd trefol, mae angen plannu rhywogaethau gwydn mewn modd cadarn gan leihau'r angen ar gyfer rheolaeth â lefel uchel o fewnbwn. Mae'r coed presennol yn aml yn briodol ar gyfer cymeriad y dirwedd drefol a dylid ystyried y rhychwant o rywogaethau wrth ddewis rhywogaethau. |

[21] LUC, Trefi Sir Benfro: Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd (2018)

**Figure 5.1: Tir amaeth arfordirol agored: cyfleoedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd**






1. Avoid planting along the coastal strip as this could detract from the open character and harm existing coastal habitats.
2. Introduce new, small-scale woodlands that sit within the field pattern of the farmed landscape and adjoin existing woodlands and/ or hedges. Restore lost hedgerows and plant hedgerow trees.
3. Plant new woodlands along steam valleys, extending the linear form of existing woodlands which relate to the enclosed valley landform.
4. Introduce woodlands to screen farm based development or small-scale tourism development.
5. Establish new woodlands to screen views of large scale industrial development.

**Figure 5.2: Tir amaeth arfordirol coediog: cyfleoedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd**






1. Restructure existing conifer plantations with broadleaved species.
2. Introduce new, small-scale woodlands that sit within the field pattern of the farmed landscape and adjoin existing woodlands and/ or hedges. Restore lost hedgerows and plant hedgerow trees.
3. Introduce new woodlands to provide links between existing valley woodlands.
4. Establish new woodlands to screen views of tourism development.

**Figure 5.3: Morydau a dyffrynnoedd afonydd: cyfleoedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd**



(1) Concentrate riparian woodlands adjacent to estuaries and river valleys to extend the existing pattern of linear woodland.

(2) Plant new woodlands along stream valleys, extending the linear form of existing woodlands which relate to the enclosed valley landform.

(3) Introduce new, small-scale woodlands that sit within the traditional field pattern of the farmed landscape and adjoin existing woodlands and/ or hedges.

(4) Restructure existing conifer plantations with broadleaved species. Relate the design of new woodland to the local landform, and naturalise margins.

(5) Avoid planting which could harm existing estuarine habitats.




**Figure 5.4: Ucheldiroedd: cyfleoedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd**






(1) Avoid planting on open upper slopes and rocky ridgelines as this could detract from the open character of the hills.

(2) Restructure existing conifer plantations with broadleaved species. Relate design to the upland landform and naturalise margins.

(3) Manage and extend woodland and scrub along upland tributaries.

(4) Manage and extend existing woodlands on lower slopes.

(5) Introducing new woodlands on lower slopes to connect with more extensive woodland in adjacent river valleys.

(6) Introduce new, small-scale woodlands that sit within the traditional field pattern of the farmed landscape and adjoin existing woodlands and/ or hedges.

(7) Introduce woodlands to screen farm based development or small-scale tourism development.

**Figure 5.5: Pentiroedd creigiog: cyfleoedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd**



(1) Avoid planting on rocky headlands as this could detract from the open coastal character and harm existing coastal habitats.

(2) Introduce new, small-scale woodlands that sit within the field pattern of the farmed landscape and adjoin existing woodlands and/ or hedges. Restore lost hedgerows and plant hedgerow trees.

(3) Plant new woodlands along stream valleys, extending the linear form of existing woodlands which relate to the enclosed valley landform.

(4) Introduce woodlands to screen farm based development or small-scale tourism development.



# Appendix A
# Proffiliau asesu

## Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno'r proffiliau asesu ar gyfer plannu coed a choetiroedd ar gyfer pob ACT yn y Parc Cenedlaethol.

**A.1** Nid yw'r asesiadau o ACTau unigol yn y Parc Cenedlaethol yn cynnwys ardaloedd trefol oherwydd mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd ar gyfer plannu coetiroedd yn yr aneddiadau hynny. O ganlyniad, nid oedd yr ACTau canlynol o fewn y cwmpas: Dinbych-y-Pysgod (ACT 2), Tyddewi (ACT 17) a Threfdraeth (ACT 23). Mae canllawiau cyffredinol ar blannu mewn ardaloedd trefol yn y Parc Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn **Nhabl 5.1** uchod.

Gweler dalennau ar wahân

# Appendix B

## Ffynonellau data/gwybodaeth

### Defnyddiwyd y ffynonellau gwybodaeth allweddol canlynol i hysbysu'r astudiaeth hon:

- Dogfen Cynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (ACT)[22]
- Dogfen Cynllunio Atodol Cymeriad Morwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro[23]
- Polisi Cynllunio Cymru[24]
- Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (dyddiad gorffen 2031)[25]
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024[26]
- An Approach to Landscape Sensitivity Assessment[27]
- Cyfoeth Naturiol Cymru: 'Datganiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'[28]
- Yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesiad o Reolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol. Adroddiad Technegol[29]

**B.1** Edrychwyd ar y canllawiau canlynol ar goetiroedd a choedwigoedd:

- Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig[30] – Adran 6.4 (Coedwigoedd a Thirwedd)
- Technegau Dylunio ar gyfer Cynllunio Rheolaeth Coedwigoedd[31]
- Strategaeth Coetiroedd i Gymru[32]
- Datganiad Ysgrifenedig. Coed a Phren[33]

---

[22] Dogfen Gynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd (paratowyd gan John Campion Associates Ltd) (2011, diweddarwyd 2020)
[23] Dogfen Gynllunio Atodol dros dro Morwedd Arfordir Penfro (paratowyd gan by White Consultants) (2013,diweddarwyd 2020)
[24] https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru (diweddarwyd Chwefror 2021)
[25] Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (dyddiad gorffen 2031)
[26] Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
[27] An approach to landscape sensitivity assessment – to inform spatial planning and land management Natural England (2019)
[28] Cyfoeth Naturiol Cymru Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau mewn perthynas â datblygiadau ynni gwynt a phaneli solar ffotofoltaig ar y tir: Dull seiliedig ar asesu ar gyfer Cymru (2018)

[30] Y Comisiwn Coedwigaeth, Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (2017)
[31] Y Comisiwn Coedwigaeth. Canllaw Ymarfer. Technegau dylunio ar gyfer cynllunio
rheolaeth coedwigoedd (2014)
[32] Coetiroedd i Gymru Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coed, Llywodraeth Cymru (2018)
[33] Datganiad Ysgrifenedig: Coed a Phren (2021)

- Datganiad ysgrifenedig - Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol 2018[34]
- Cyfoeth Naturiol Cymru Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru (2016)[35]

**B.2** Yn ogystal, mae'r tabl canlynol yn rhestru'r prif setiau data a gafodd eu cywain a'u dadansoddi mewn meddalwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) fel rhan allweddol o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth hon.

**Table B.1: Data GIS a ystyriwyd yn yr asesiadau**

| Haen GIS | Ffynhonnell |
|---|---|
| **Mapiau sylfaenol** | |
| Delweddau o'r Awyr | ESRI |
| Arolwg Ordnans 25k | Arolwg Ordnans (drwy Getmapping) |
| Arolwg Ordnans 50k | Arolwg Ordnans |
| Arolwg Ordnans 250K | Arolwg Ordnans |
| Cyfuchliniau | Arolwg Ordnans |
| **Ffiniau** | |
| Ffiniau awdurdodau lleol | Arolwg Ordnans |
| Ffiniau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | APCAP |
| Ffiniau Ardaloedd Gweithredu | APCAP |
| **Cymeriad Tirwedd** | |
| Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a Morwedd Cenedlaethol ar gyfer Cymru | CNC |
| Ardaloedd Agwedd LANDMAP | CNC |
| Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Arfordir Penfro (2011) | APCAP |
| Ardaloedd Cymeriad Morwedd Arfordir Penfro a'u Mathau (2013) | APCAP |
| **Amaethyddiaeth a Defnydd Tir** | |
| Dosbarthiad Tir Amaethyddol | CNC |
| Map Gorchudd Tir CEH 2019 | CEH |
| Map Mawn Unedig Cymru | Lle |
| Gorchudd Tir CORINE | EEA |
| **Treftadaeth Naturiol** | |
| Rhestr Cynefinoedd Blaenoriaeth | CNC |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol | CNC |
| Gwarchodfeydd Natur Lleol | CNC |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | CNC |
| Rhestr Coetiroedd Hynafol | CNC |
| Y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol | FC |
| Safleoedd Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) / Safleoedd Daearegol Lleol | CNC |
| Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol (GCR) | CNC |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) | CNC |
| Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) | CNC |
| Parthau Cadwraeth Morol | CNC |
| Ramsar | CNC |
| Gwarchodfeydd RSPB | RSPB |
| Ardaloedd Adar Pwysig RSPB | RSPB |
| Rhwydweithiau Cynefinoedd | CNC |
| Gorchudd canopi | Cymru Fyw |
| **Amgylchedd Hanesyddol** | |
| Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig | Cadw |
| Adeiladau Rhestredig | Cadw |
| Henebion Cofrestredig | Cadw |
| Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig | APCAP |
| Ardaloedd Cadwraeth | Lle |
| Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol (CAHau) | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed |
| **Adnoddau dŵr** | |
| Potensial Ail-gysylltu Gorlifdiroedd WWNP - Cymru | CNC |
| Potensial Plannu Coetiroedd Gorlifdiroedd WWNP - Cymru | CNC |

[34] Datganiad ysgrifenedig Gwerthfawr a Chydnerth:Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol (2018)

[35] Cyfoeth Naturiol Cymru, Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru (2016)

| Haen GIS | Ffynhonnell |
| --- | --- |
| Potensial Coetiroedd Torlannol WWNP - Cymru | CNC |
| OpenRivers Arolwg Ordnans | Arolwg Ordnans |
| **Mynediad a Hamdden** | |
| Y Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol | Sustrans |
| Llwybrau Cenedlaethol | CNC |
| Mynediad Agored, gan gynnwys Tir Comin | CNC |
| Parciau Gwledig | CNC |
| **Cynllunio a seilwaith** | |
| Ardaloedd a Aseswyd Rhag Blaen ar gyfer Ynni Gwynt (PAAs) | Lle |
| Ardal Chwilio Solar Lleol | APCAP |
| Llinellau pŵer uwchben a phibellau y Grid Cenedlaethol | Grid Cenedlaethol |
| Ffermydd solar a ffermydd gwynt sydd â chaniatâd neu'n weithredol | BEIS |
| **Awyr dywyll a llonyddwch** | |
| Awyr Dywyll a Llygredd Golau yng Nghymru | CNC |
| OS 50 Terrain | Arolwg Ordnans |
| Ardaloedd Tawel Cymru (2009) | CNC |

# Appendix C
# Rhestr termau a byrfoddau

**Table C.1: Rhestr Termau**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| AOD | Uwchlaw'r Seilnod Ordnans (lefel y môr). |
| Dosbarthiad Tir Amaethyddol | Dosbarthiad tir amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. |
| Coed hynafol a choed o gryn oedran | Coed unigol neu grwpiau o goed gyda choed pori, parcdir hanesyddol, gwrychoedd, perllannau, parciau ac ardaloedd eraill Maent yn aml i'w gweld y tu allan i goetiroedd hynafol. cynefinoedd anadnewyddadwy gyda rhai neu'r cyfan o'r nodweddion canlynol:<br>Coed hynafol<br>Mae coeden hynafol yn hynod werthfawr. Mae ei phriodoleddau yn gallu cynnwys ei hoedran mawr, maint, gwerth o ran bioamrywiaeth (o ganlyniad i bydredd pren sylweddol a'r cynefin a grëir drwy'r broses o heneiddio), gwerth diwylliannol a threftadaeth.<br>Coed o gryn oedran<br>Gallai coeden o gryn oedran fod yn hen iawn neu beidio, ond mae ganddi nodweddion pydredd, megis marwolaeth canghennau a chafnu. Mae'r nodweddion hyn yn cyfrannu at ei bioamrywiaeth, a'i gwerth diwylliannol a threftadaeth. |
| Coetir Hynafol | Coetir y mae'r dystiolaeth yn dangos bod gorchudd coetir parhaus wedi bod yno ers o leiaf 1600 AD ac sydd wedi'i glirio ar gyfer tangoed neu gynhyrchu pren yn unig. Mae'n adnodd ecolegol hynod werthfawr, gydag amrywiaeth eithriadol o fflora a ffawna. |
| Bioamrywiaeth | Mesur o'r amrywiaeth o organebau sy'n bresennol mewn gwahanol ecosystemau. |
| Prysgoedio | Y dull traddodiadol o reoli coetiroedd drwy dorri coed i lawr hyd at lefel agos i'r ddaear er mwyn annog tyfiant egin hir, syth, y gellir eu cynaeafu'n ddiweddarach. |
| Elfen | Cydran o'r dirwedd (e.e. perthi, ffyrdd, coedydd). |
| FC | Y Comisiwn Coedwigaeth. |
| GCR | Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol. |
| Glastir | Cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru, y cynigir cymorth ariannol i ffermwyr a rheolwyr tir trwyddo. |
| Cynefin | Cartref neu amgylchedd naturiol anifail, planhigyn, neu organeb arall. |
| CAH | Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol |
| NHT | Nodweddion Hanesyddol Tirwedd. |
| Gorchudd tir | Cyfuniadau o ddefnydd tir a llystyfiant sy'n gorchuddio arwynebedd y tir. |
| Tirwedd | Mae'r term yn cyfeirio'n bennaf at olwg y tir, gan gynnwys ei siâp, ei ffurf a'i liwiau. Fodd bynnag, nid ffenomen gyfan gwbl weledol ydy'r dirwedd; mae ei chymeriad yn |

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| | dibynnu ar rychwant o ddimensiynau eraill, gan gynnwys daeareg, topograffi, priddoedd, ecoleg, archaeoleg, hanes y dirwedd, defnydd tir, pensaernïaeth, a chysylltiadau diwylliannol. |
| Cymeriad tirwedd | Patrwm neilltuol neu gyfuniad o elfennau sy'n digwydd yn gyson mewn tirwedd benodol. |
| Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) | Ardal ddaearyddol unigryw sydd â chymeriad a hunaniaeth cyson, sy'n ffurfio rhan o fath o gymeriad tirwedd. |
| Gwerth tirwedd | Y gwerth cymharol a osodir ar wahanol dirweddau. Mewn cyd-destun polisi, y sail arferol ar gyfer cydnabod tirweddau penodol sydd o werth uchel ydy trwy ddynodiad tirwedd lleol neu genedlaethol. Serch hynny, gallai tirwedd fod yn werthfawr i wahanol gymunedau diddordeb am nifer o resymau gwahanol heb fod ag unrhyw ddynodiad ffurfiol, gan gydnabod, er enghraifft, agweddau canfyddiadol megis prydferthwch golygfaol, llonyddwch neu natur wyllt; cysylltiadau diwylliannol arbennig; dylanwad a phresenoldeb agweddau eraill sydd o ddiddordeb cadwraethol; neu fodolaeth consensws ynglŷn â'r pwysigrwydd, naill ai yn genedlaethol neu'n lleol. |
| Adeilad Rhestredig | Adeilad, gwrthrych neu adeiladwaith y barnwyd ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol o safbwynt diddordeb pensaernïol neu hanesyddol. |
| GNL | Gwarchodfa Natur Leol. |
| Cymeriad naturiol | Cymeriad sy'n ganlyniad i nodweddion naturiol neu lled-naturiol megis coetir, glaswelltir, gwrychoedd ac ati. |
| Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (ACTC) | Caiff Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol eu diffinio gan CNC ar raddfa tirwedd eang. Mae 48 ACTC unigol yng Nghymru. Mae gan bob un ei nodweddion naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol ei hun sy'n neilltuol yn rhanbarthol. |
| RhGG | Y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol |
| GNG | Gwarchodfa Natur Genedlaethol. |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Tir mynediad agored | Ardal ble mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar droed yn unol â'r hyn a amlinellir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2005. |
| OS | Arolwg Ordnans |
| PCHau | Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol. Safleoedd coetir hynafol ble mae'r coetir lled-naturiol wedi'i ddisodli gan blanhigfa. |
| Tir pori | Tir a ddefnyddir ar gyfer cadw neu bori defaid neu wartheg. |
| APCAP | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| *Phytophthora ramorum* | Organeb tebyg i ffwng sy'n peri marwolaeth rhychwant eang o goed a llwyni, yn enwedig Llarwydd. |
| HTC | Hawl Tramwy Cyhoeddus |
| Ramsar | Gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol, yn arbennig fel Cynefin i Adar Dŵr. |
| Gweddill | Rhan neu rywfaint o rywbeth sydd wedi'i adael ar ôl i'r rhan fwyaf gael ei ddefnyddio, ei symud ymaith, neu ei ddinistrio. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| RIGS | Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol. |
| Cynefin torlannol | Cynefin glan afon. |
| PGHC | Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig - safleoedd a restrir yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a ddynodwyd yn unol â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig (Cyfarwyddeb y CE 92/43/EEC Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd). |
| Heneb Gofrestredig | Safleoedd archaeolegol neu adeiladau hanesyddol sydd yn cael eu diogelu rhag newid heb ganiatâd. |
| Llystyfiant lled-naturiol | Unrhyw fath o lystyfiant naturiol sydd wedi ei ddylanwadu gan weithgareddau dynol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. |
| Ymdeimlad o Le | Canfyddiad unigolyn o nodweddion cynhenid lleoliad, yn seiliedig ar y cymysgedd o ddefnydd, golwg a chyd-destun sy'n gwneud lle yn gofiadwy. |
| Sensitif | Yr ymateb i newid neu ddylanwad. |
| Nenlin | Amlinell cadwyn o fryniau, cefnen eu grŵp o adeiladau a welir yn erbyn yr awyr. |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig (Cyfarwyddeb y CE 2009/147/EC ar Gadwraeth Adar Gwyllt). |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. |
| Dyfnder amser | Y cyfnod o amser y rhoddir mynegiant iddo yn y dirwedd, neu'r graddau y mae'r dirwedd yn adlewyrchu cyfnod penodol o amser (bydd tirwedd sydd â mwy o ddyfnder amser yn cynnwys elfennau hŷn na thirwedd sydd â llai o ddyfnder amser). |
| Topograffi | Cyfuniadau o lethrau ac uchder sy'n creu siâp a ffurf arwynebedd y tir. |
| UKFS | Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig. Y safon ar gyfer cynllunio a dylunio coedwigoedd a choetiroedd yn y Deyrnas Unedig a'u rheoli'n gynaliadwy. |
| Priodoleddau tirwedd gwerthfawr | Nodweddion sy'n bwysig i gymeriad tirwedd ac a fyddai, o'u colli, yn arwain at newid niweidiol i'r dirwedd. |